eu hunain, lle y cadd y crefydd hwn faeth a dechreuad. Antur iddynt a chytuno hn amser yn eu mysc eu hun, oddieithr yr ysgatfydd fal y Phariſæaid ar Saducæaid: neu fal Herod a Philat, yn-erbyn Crist. Goreu peth fydde iddynt wneuthyr heddwch yn eu plith eu hun gartref. Ag yn wir nid oes ddim bardhach a gweddusach i grefydd, nag hndeb a chyttynniad. Etto nid yw hyn nod addas, diambeuol, o Eglwys Ddnw: Canys cytundeb mawr oedd ym-mysc y fawl a addolodd y llo euraid; ag ym-mysc y rhai a gyd-lefafant yn groch yn erbyn eyn pryntwr Iesu Grist, Croes-holia ef. Ag ni ddylem-mi dybied oblegid hod amrafaelion ymysc y Corinthiaid, neu ddigwyddo peth anghydfod rhwng Pedr a Phawl, neu fod ymryſſon rhwng Barnabas a Phawl, neu er mwyn nad oedd y Cristnogion yn medry cytuno pawb a'i gilydd, ynghylch rhyw beth, wrth ddechreuad yr Efengyl, may am hynny nad oedd Eglwys Ddnw yn eu plith nhwy? Tu-ag-at am y rhai y maen-nhwy o wir gas yn-eu galw yn Zuingliaid ag yn Lutheranaid; digon gwir yw hod y ddeuryw hynny yn Gristnogion, yn hoff genthynt eu gilydd, ag yn frodyr. Nid yw'r amrafael rhyngthynt hwy hyngholch

gwraidd

gwȝaidd a dechȝeuad eyn crefydd ni, ag nid ynghylch Duw, na Chriſt na'r Yſpryd glân, na pha fodd i'n cyflawnir, nag ynghylch Wyfwyd tragwyddol, y maent hwy'n angheſtuno; eithȝ yn dnig ynghylch dn pwnc, a hwnnw heb fod chwaith dwyȝ na mawr iawn. Ag nid oes annodaith nag ammeu gennym, na bydd cyfundeb rhyngthynt arfyȝo amſer. Ag dd oes rai onynt a choelion amgenach gentbynt nag a wedde, di-ammeu y rhoddant heibio eu gwyȝ-feddylieu au henweu pleidieu, cyn y bo hir; ag y bynnoda Duw iddynt hyn: megis ag wȝth yſturio'ȝ achos yn well, ai chwilio yn fanylach, (fal y darfu gynt yn y Cymanfa-gyngoȝ yng-Halcedonia) y tynnir o'ȝ gwȝaidd, ag y cleddir byth mewn angof; boll egin ag achoſſion anghytundeb; a phod gwir fo.

Dnd trymma peth yw hyn, eu bod nhwy'n doedyd amdonom may dynion bȝyntion annuwiol ydym, wedi bwȝw ymaeth yn ollawl ofalu am grefydd: Ag etto ni ddyle hyn mo'n trymbau nemoȝ chwaith, gan eu bod nhwy hunain y rhai a hauraſſant hyn arnom. yn gwybod moȝ oganllyd, ag moȝ ffals ydyw. Canys Iuſtinus y Merthyȝ fy'n teſtiolaethu, pan ddechȝeuwyd pȝegethu'r Efengyl a goſſod allan

Euſebius lib. 4.

allan henw Crist. may peth cyffredin y pryd hynny oedd alw'r holl Gristnogion ἀθέους, sef, dynion di-Dduw. A phan oedd Policarpus yn sefyll yw farnu, yna yr annoge'r bobl y Rhagbenrhaith i ladd a difa cymain-hun y sawl a addefent yr. Efengyl, gan ddoedyd fal hyn αἰρε τους ἀθέους sef, gwna ben am y dynion mell-tigedig ymma sy heb Dduw genthynt. Ag nid ydoedd hyn o drin, o herwydd bod yn wir nad oedd Dduw gan y Cristnogion, eithr o herwydd nad addolent hwy gerrig, a*chyffion, y petheu a addolid y pryd hynny megis Duwiau. Ond mae'r holl fyd bellach yn gweled yn ddigon amlwg, beth a ddioddefasom-mi, a'n cyd-frodyr, gan y gwyr hyn, er mwyn crefydd ag vnig achos eyn gwir Dduw. Nhwy a'n bwriasont-ni'r carchareu, i'r dyfroedd, i'r Tan, ag a'm drybaeddasant yn eyn gwaed ni; a hynny, nid oblegid eyn bod ni'n odinebwyr, neu'n ladron, neu'n lladd dynion, namyn yn vnig er mwyn eyn bod ni'n cyfaddef Efengyl Iesu Grist, ag yn gobeithio yn y Duw byw

*cypullion.

Ag er mwyn i ni achwyn, (Duw ti ai gwyddost) nid heb achos rhy gyfiawn a rhy gywir, ddarfod iddynt dorri cyfraeth Dduw o ran eu Tradoddiadeu coegion

eu

eu bunain: a bod eyn gwrthdynebwyr ni'n gas iawn genthynt yr Efengyl, ag yn elynion i Groes Crist, oblegid iddynt dŷwy lawn wybodaeth ag o'r gwirgwaith-ddioddef mewn cyndynrwydd ddirmygu gorchmynion Duw.

Gan hynny, pan welsont hwy na ellid cael achos cyfiawn i feio ar eyn bathrawiaeth ni, yna rhoi llownfryd a wnaethant ar oganu'n buchedd, gan haeru arnom * ddamnio pob gweithred dda, agoryd y drysseu i bob anllywodraeth ag anlladrwydd, a cham-arwain onom mi'r bobl allan o holl lwybrau rhinwedd. Ag o ddoedyd y gwir, nid ydyw, ag ni bu er ioed fuchedd dynion (pe rhown a'u bod nhwy,n ddiwiol, ag yn griftnogion) cyn bured na ellid cael peth gwall yn ymddygiad y rhai goreu a'r rhai diweiriaf: befyd,mae'r Cyfriw naturiaeth ym bob math ar ddyn i ogwyddo at ddrygioni, a chyn bowsed befyd gan bawb ddrwg dybied; ag y gellir clywed doedyd, a pheri coelio, y petheu ni wnaethpwyd er ioed, ag nid amcanwyd eu gwneuthyr. Ag fal y cenfyddir y smotyn lleiaf yn y dilledyn gwynaf, felly hawdd yw craffu ar y gronyn lleiaf o frynti yn y fuchedd lanaf. Mid ym-mi'n tybied eyn bod ni'n bunein

*enog-farn*

(neu'r

(neu'r cynifer a ddeerbyniodd athrawiaeth yr Efengyl) fal Angylion, ag yn hyw'n ddi-feius ag yn ddifrycheulyd: ag ni thybiwn-ni chwaith, allu o'r gwyr hyn fod moz ddall nas canfyddant hwy dzwy'z rhigol lleia, od oes ddim ynom a ellir crafu arno: na'u bod nhwy moz howddgar ag y cymerant hwy ddim oz eiddym-mi yn y rhan gozeu: nag etto moz rhywiog eu hyfturiaeth, ag y bydd gwiw gentbynt dzoi eu golwg yn ol, i edzych arnynt eu hun, a chyd-hwyfo eyn bucheddi ni gyda'r eyddynt eu hunain. Od aem-mi i chwilio yn fanwl, hyn o beth o'z dechzeuad, ni a wyddom fod yn amfer yz Apoftolion, ddynion Criftnogion, dzwy'r rhai y ceblid enw'z Arglwydd ag y gogenid ef ymhlith y cenedloedd.

Conftantin yz ymerodz (fal y ferifennodd *Sozomenus*) a gwynai gynt fod llawer yn mynd waeth-waeth ar ol cymeryd ernynt grefydd Crift. Cyprianus ynte, mewn Araith alarus a offododdi allan lygredigaeth ei amfer ef. Segurwch a hir Dangnefydd (hebzef) a lugrodd yr athrawiæth yr hon a draddododd yr Apoftolion i ni. Pob vn yn myfyrio am helaethu ei dref-tad, a chan ollwng drôs gôf bob vn or ddau, beth a wnaeth y crediniaid gynt dan De lapfis.

eu bunain: a bod eyn gwrthbwynebwyr ni'n gas iawn genthynt yr Efengyl, ag yn elynion i Groes Crist, oblegid iddynt dzwy lawn wybodaeth ag o'r gwirgwaith - ddioddef mewn cyndynrwydd ddirmygu gorchmynion Duw.

Gan hynny, pan welsont hwy na ellid cael achos cyfiawn i feio ar eyn bathzawiaeth ni, yna rhoi llownfryd a wnaethant ar ogamu'n buchedd, gan haeru arnom * ddamnio pob gweithzed dda, agoryd y dzussieu i bob anllywodzaeth ag anlladzwydd, a cham-azwain onom mi'r bobl allan o boll lwybrau rhinwedd. Ag o ddoedyd y gwir, nid ydyw, ag ni bu er ioed fuchedd dynion (pe rhown a'n bod nhwy,n ddiwiol, ag yn griftnogion) cyn bured na ellid cael peth gwall yn ymddygiad y rhai goreu a'r rhai diweiriaf: befyd,mae'r Cyfriw naturiaeth ym bob math ar ddyn i ogwyddo at ddzygioni, a chyn bawsed befyd gan bawb ddzwg dybied; ag y gellir clywed doedyd, a pheri coelio, y petheu ni wnaethpwyd er ioed, ag nid amcanwyd eu gwneuthyr. Ag fal y cenfyddir y smotyn lleiaf yn y dilledyn gwnaf, felly hawdd yw craffu ar y gronyn lleiaf o frynti yn y fuchedd lanaf. Mid ym-mi'n tybied eyn bod ni'n bunein

† enog-farn

(neu'r

(neu'r cynifer a oderbyniodd athrawiaeth yr Efengyl) fal Angylion, ag yn hyw'n ddi-feius ag yn ddifrycheulyd:ag ni thybiwn-ni chwaith, allu o'r gwyr hyn fod mor ddall nas canfyddant hwy drwy'r rhigol lleia, od oes ddim ynom a ellir crafu arno:na'u bod nhwy mor howddgar ag y cymerant hwy ddim or eiddym-mi yn y rhan gorau: nag etto mor rhywiog eu hysturiaeth, ag y bydd gwiw gentbynt dyoi eu golwg yn ol, i edrych arnynt eu hun, a chyd-bwyso eyn buchedd ni gyda'r eyddynt eu hunain. Od aem-mi i chwilio yn fanwl, hyn o beth o'r dechreuad, ni a wyddom fod yn amser yr Apostolion, ddynion Cristnogion, drwy'r rhai y ceblid enw'r Arglwydd ag y gogenid ef ymhlith y cenedloedd.

Constantin yr ymerodr (fal y serifennodd *Sozomenus*) a gwynai gynt fod llawer yn mynd waeth-waeth ar ol cymeryd ernynt grefydd Crist. Cyprianus ynte, mewn Araith alarus a ossododd allan lygredigaeth ei amser ef. Segurwch a hir Dangnefydd (hebr ef) a lugrodd yr athrawiæth yr hon a draddododd yr Apostolion i ni. Pob vn yn mysyrio am helaethu ei dref-tad, a chan ollwng drôs gôf bob vn or ddau, beth a wnaeth y crediniaid gynt dan De lapsis.

yr Apoſtolion, a hefyd beth a ddyle pôb Criſtion ei wneuthyr bythynhwy a roddaſſant eu llawn ofal ar amylhau eu da bydol, drwy fawr awydd cybydd-dra annigonawl. Nid oes ddim cywir-Greſydd yn yr offeiriad: nid oes mor ffydd gyſan yn y gwenidogion; nid oes dim trugaredd mewn gweithredoedd; na dim addyſc ymmoeſeu dynion; y gwyr a aethant yn wrageddaidd; a'r gwragedd a beintiaſant eu hwyneb-pwyd. Achŷn amſer Cyprianus y doedodd Tertullianus; O mor drùain ydimmi a elwir y Criſtnogion y pryd hyn! byw rydym ar ôl dull y Cenedloedd dan enw Criſt. A chwedi hynny (nid er coſlo'r holl ſtorieuwyr) Gregorius Nazianzenus a ddoedodd fal hŷn am y dzuanaidd gyflwr yn ei amſer ef: Mae ini (heb'r ef) gas a dygaſedd ym-myſc y Cenedloedd, er mwŷn eyn cam-weddeu. A hefyd, nyni aethom yn rhyfeddod, nid yn vnig i Angylion, ag i ddynion, eithr yn ollawl ir holl rai annuwiol. Llymma'r cyflwr yr oedd Eglwys Ddduw yntho, pan ddechreuodd yr Eſengyl gyntaf oleuo, a phan nid oeraſai etto gyndoeiriowgrwydd y trawſ-Wennaethied, ag ni chynneſſid etto mor cleddyf oddiar warreu'r Criſtnogion. Sef, gwir iawn nad peth newydd yw bod dynion yn ddynion, ie

er

er cael onynt eu galw gerfydd heuw Crſtinogion. Mnd tra fo'z gwyz hyn moz atcas yneyn cyhuddo ni, a feddyliant hwy yn y cyfamſer ddim amdanynt eu hun? A thza fonc yn cael hamdden i edzych cym-mbelled beth a wneler yng Germania ag yn Lloegr; ai gpllwng dzos gof a wnaethant, ai ynte canfod nis gallant, beth rydis arno yn Rhufain? Ai'r gwyz hyn yw'n cyhuddwz ni, y rhai ni ddichyn neb grybwyll am eu huchedd yn ddiwarth, ddi-gwilidd? Mi chymerwn i arnom ar hyn o amſer ddangos a chyhoeddi i'r hyd y petheu a ddylent gael eu cuddio au claddu gyda'r ſawl a'u gweithiodd. Mid yw hynny gyſſon a'n crefydd ni, ag ni wedde fo chwaith i'n llednei- * Pab
ſwydd a'n gwladeiddzwydd ni. Eithz etto y Rhufain.
*gwz ſy'n gozchymyn ei alw ei hunan yn Vicar Criſt, ag yn Ben a'r yz Eglwys, ag y dyw'n clywed, ag yn gweled, ag yn goddef, (ni ddoedwn ni ddim chwaneg) gwneuthyz petheu dzwg yn Rhufain, efo a ddichyn yn hawdd rhyngtho ag efo'i hũ, feddwl pa fath betheu ydyw'rhai hynny: Deled yw gof ef yn hydda, a meddylied, may Canoniſtiaid o'z eiddo ef pw'rheini a ddyſcaſant i'r hobl nad pechod ydyw godineb rhwng meibion a merched: fegis, pe dyſcaſſent yz athzawiaeth hon gan Mitio yn llyfr Terens, lle

mae ef yn doedyd fal hyn: Nid yw bechod (coelia fi)er i fab hel puteinieid. Meddylied may'r eiddo fo yw'r rhai a wnaethant ddeddf na ddylid ſymmyd offeiriad o'i le am odineb. Galwed iw gof ddarfod i Gardinal Campegius, Albertus Pighius, ag i lawer eraill oi blaid ef, ddyſcu i'r bobl fod yr offeiriad a gatwo gorddercb, neu fyrioneg, yn byw'n ſancteiddiach ag yn ddiweiriach o lawer, na'r neb a fo a gwraig briod gantho. Gobeithio na ollyngodd ef dros gof fod llawer mil o buteinieid yn Rhufain, a'i fod ef ei hunan yn caſclu ardreth oddiwrthynt, ynghylch Nowmil o Bunneu hob blwyddyn; ag na all ef ollwng dros gof, fod onaw ef yn cadw putteindra cyffredin yn Rhufain, ag ar gwobr brynta, trwy frynti a direidi, yn porthi eu chwanteu eu hun. Ai pur a ſanctaidd ydoedd pob peth yn Rhufain pan oedd Ioanna, gwraig gymedrolach o oedran, nag o fuchedd, yn Bâb Rhufain, ag yn cymryd erni fod yn ben ar yr Eglwys? Ag ar ol iddi chware'r butteyn ddwy flynedd yn yr Cieſteiddfa ſanctaidd, er diwedd wrth fynd mewn proſeſſiwn amgylch y dref, yngwydd y Cardi-naliaid ar Eſcobion, hi eſcorodd ar blentyn ar ganol yr heol yngolwg pawb? Pa raid dwyn ar gof gorddercbion a llataion pechod

3. queſ. 47. lata. extra. De Bigamis. Quia circa.

Siwon Bab. *Mae delw'r wraig ym ma yn eſcor: eto yw gweled yn Rhufain.*

nechod cyffredinol elw-gar pw bwnnw yn Rhufain y pryd hyn. Eiſtedd yno mae puteyniaid yr amſer ymma, nid fal yr eiſteddent gynt o'r tu allan i'r dref, wedi gorch-guddio eu penneu a'u bwyrebeu, eithr trigo y maent mewn plaſſeu, a thai gwchion, gan fynd wrth eu bodd, i'r llys, a'r heol, a'u bwrnebeu yn ddi-guddiedig; fegis na bae byn o belynt yn bnig yn rhydd, namyn hefyd yn ganmoliaeth iddynt. Pa raid y chwaneg? Mae brynti eu buchedd bwynt yrowrion yn hynod ir holl fyd. Bernardus a ſcrifennodd y gwir yn ddiragrith am dylwyth ty Eſcob Rhufain, a hetyd am yr Eſcob ei hun: Dy Blâs di(hebr ef)ſy'n derbyn dynion da i mewn ond heb wneuthyr vn da:yno mae y rhai drwg yn tyccio, a'r rhai da yn tryccio. A phwy bynnag ydoedd bwnnw a ſcrifennodd y gwaith trirhannog a gyſſylltir wrth a'r Cyngor-Lateranenſe, cymaint rhyfyg (medd ef) ag anlly wodraeth ſydd heddyw, nid yn vnig yn yr yſcolheigion a'r offeiriaid, eithr hefyd yn y Prælatiaid, a'r Eſcobion, ag y mae'n erchyll clywed ſon am dano.

Gen. 38.

In concilio Dilect. Cardinalium. to 3.

De conſideratione ad Eugenium.

A'r perheu hyn nid ydynt yn bnig arferedig, ag wrth hir gydfod a bwynt yn gymeradwy, fegis eu holl belyntieu eraill gan-mwya, namyn bellach wedi mynd yn

ben ag yn hwdz addfed. Canys, pwy nis gwyz pa ddialedd a wnaeth Petrus Aloisius (mab y Pàb Pawl y trydydd) a Cholmus Cherius Escob Ffanensis? A'r peth a wnaeth Ioannes Casa Archescob Beneuentanus, ydoedd genadwz dywzth y Pab, at Wennaethieid tref Venis, yz hwn Archescob a scrifennodd yng-hanmoliaeth pechod ffiaidd erchyll, yz hwn ni ddylid crybwyll amdano, ag ai golodod ef allan a geirieu oz fath serthac, mewn cymhendod melldigedig? Pwy ni chlywodd moz ddiffaith ag moz echzyslawn y lladdodd Alphonsus Diazius (ydoedd Spaniard) ei frawd Ioannes Diazius, gwzgwirion santeiddiol dzosben, oblegid ddazfod i'r Ioannes bwnnw dderbyn Esengyl Iesu Grist, ag na fynnee ef ddyfod i Rufain ond hynny; o achos pa ham y danfonessid yz Alphonsus bchod o Rufain i Germania yw ladd ef? Ond so alle, yz attebant hwy y dichyn y fath bethau a'r hain weithieu ddigwydd lle y bo gozeu llywodzaeth, a hynny'n erbyn ewyllys y llywodzaethwyz: a bod cyfreithieu da i golpi y cyfriw gam-weddeu.

Gedwch i hynny fod; ond trwy ba gyfraith dda y cospwyd y petheu dzyntion hyn? Petrus Aloisius a'r ol gwneuthyz onaw ef y diffeithwch a gzybwyllwyd oz

blaen

blaen, a gafodd yn wastad wedi hynny ei goledd fal anwylyd ym-mynwes ei Dad y Pâb Pawl y trydydd. Diazius yntef, a'r ol iddo ladd ei frawd, a ddiangodd drwy waith y Pâb fal na chai'r gyfraith dda afael arno i'w gospi. Ag am Ioannes Casa Archescob Beneuentanus, mae'r gwr hwnnw etto'n fyw: ie, a byw y mae efe yn Rhufain yngwydd y Pâb sancteiddiol, a cheyr bron ei lygeid ef. Nhwy a laddassant beth anneirif o'n brodyr ni heb achos yn y byd, ond am gredu o honynt yn *Iesu* Grist drwy wirionedd a duwioldeb. Eithr o gymaint llu o butteynieid, o rai aflan, ag o odinebwyr, pa bn a ddarfu iddynt bn amser, ni cheistai ddoedyd ei ladd, namyn pa bn a ddarfu iddynt ei escummuno bnwaith, neu roi dwylaw arno? Ai Anlladrwydd, Godineb, Putteindra, lladd cerynt, * gwarthus aflendid rhwng cerynt, a ffieidd-dra mwy na hynny, nid ydynt bechodeu yn Rhufain? Neu os pechodeu ydynt, ai rhydd i'r Pâb sydd Vicar Crist, sy'n dwyn swydd Pedr Apostol ag sydd sancteiddiolaf Dad, ai rhydd (meddafi) iddo ef mor howddgar, ag mor yfcafn eu dioddef, fal na baent bechodeu mo honynt; a hynny hefyd yn-rhef Rufain, ag yng-hastell y Sancteiddrwydd?

*Llosc ach.

O Scrifenyddion a Phariſæaid ſanctaidd! y rhai ni wybuont beth oedd y ſanctteiddrwydd hyn! O Sanctteiddzwydd! O yz ffydd Gatholic! Mid y fath hetheu a'rhain addyſcodd Pedr i bobl Rufain: Mid oedd Bawl yn byw yn Rhufain yn y modd hyn. Mid oeddynt hwy'n cynnal Puteindza cyffredin. Mid oeddynt hwy'n mynny treth ag ardzeth bob blwyddyn gan Putteinnieid: Ni ddioddefent hwy i odinebwyz, a lladdwyz bynod, fyw yn ddigoſpedigaeth: Ni chymerent hwy moz fath ddynion iw mynweſeu, nag iw cyngoz, nag iw teulu, nag i gynylleidfa'r crifinogion. Ag am hynny ni buaſe raid ir gwyz hyn wneuthyz cymaint twzwf a thzin am eyn buchedd ni. Synhwyzolach fuaſe, y naill'ai pzoff yn gyntaf peth, fod eu buchedd nhwy eu hun yn dda: neu pnteu guddio eu buchedd, au beiau, y chydig yn ddirgelach.

Canys mae gida nyni etto mewn llawn grym a nerth, yz hen gyfreithieu gynt, a chym-mhelled ag y galler (yz amſer fydd oni'rowzon, pan yw buchedd dynion a phob peth wedi llugru) goſſod allan rydym yz addyſc Eglwyſig yn aſtud ag yn ddiragrith. Mid oes gennym-mi deie cyffredin putteinllyd, na llu o ozddercbion, a godineb-

nebwyz: Nid ym-mi cbwaitb yn gossod allan godineb o flaen pziodas, nag yn ym-arfer a bzynti anifeiliaidd; nag yn casclu ardzetb oddi wzth butteindza, nag yn cynnwys godineb ym-mysc cerynt, nag erchyll affendid, nag yn gadel beb gospedigaetb, y cyfrifo laddwyz ag ydoedd Aloisius, Casa, a Diazius. Dblegid ni buasc raid i ni ymado a chymdeithas y gwyz byn, pe buasc fodlon gennym y petheu gwenwynllyd ymma, y rhai sydd gyda bwynt-bwy mewn clod a chymeriad. Ag ni buasc raid i ni chwaitb o ran ymadel a nbwynt-bwy gael cas dynion, a bod befyd mewn enbydzwydd anescozawl. Nid oes etto alwer Mis er pan ydoedd gan y Pâb Pawl, y pedwerydd fagad o ffrierod Awstiniaid, llawer o Escobion, a rbif mawz o wyz duwiol eraill ynghar char am achos crefydd: ef a'u rhoes nbwy mewn poenau, ag a fu yn ymholi a bwynt, ag a dzeiodd bob modd i beri iddynt gyfedde: Dnd yn y diwedd pesawl dyn anllad, pesawl putteiniwz, pesawl godinebwz, pesawl bzyntyn a alle ef gaelyn eu plith nbwy y gyd? I'n Duw ni bo'z diolch, er nad ydym fal y dylem, ag fal yz ym-mi'n cymeryd arnom fod, etto pwy ddynion bynnag ydym, os cystedlir ni a bwynt-bwy, di-ammeu may

bawdd

bawdd y dihaera'n buchedd a'n gwirion-deb ni y petheu y maent hwy'n eu cambaeru arnom. Ammog y bobl i bob rhinwedd a dayoni rydym-mi, nid yn bnig dzwy lyfreu, a phzegetheu, eithz dzwy lampleu, a buchedd. Hefyd, dyscu iddynt rydym mi nad ffrost gwybodaeth ydyw'z Efengyl, namyn cyfraith y bywyd; ag na ddyle crifti-
In Apologetico 45. on (fal y dywed Tertullianus) ddoedyd yn anrhydeddus, namyn bpw yn anrhydeddus; a hefyd nad gwzandawyz, namyn gweithwyz y Gyfraith a gyflownheir gezn bzon Duw. Heblaw'r petheu ymma a baeraſant hwy arnom, eu harfer yw doedyd hyn hefyd, a'i helaethu dzwy bob rhyw ddirmyg a dychan amdanom; ſef, may dynion blin trallodus ydym, yn dwyn rhol a llywodzaeth oddiar frenhinoedd; gan gyfroi a rhoi arfeu yn-nwplaw'z bobl; bwzw i lawz Eiſtedd-faeu barnedigaeth; tozri cy freithieu; gwneuthyz bafog o bob meddiant; goſkwng Wzenhinoedd; a chodi'r cyffredin, bwzw pob peth bē-dza-mwnwgl; ag
Tertull. in Apologer. l. 2. c. 3. ar fyz o eirieu, na fynnwn ni na thzefn, na chyfander, mewn Leyznas. O (Mduw) peſawl gwaith dwy'z geirieu hyn y cynneuhaſant hwy lid Twyſogion i'n herbyn, megis y galle'r rheini nhwytheu ddiffoddi goleu'r Efengyl, yn ei thwf a'i hegin cyntaf,

taf, ag y gallent gaffau yz Eſengyl cyn gwybod beth ydoedd. A befyd fal y galle'r Swyddog dybied ganfod onaw ef ei elyn glas, bob gwaith ag y canfydde fo bn o honom mi!

E fydde offo toft ini gael eyn cyhuddo moz benwyllys o ddirfawr dzauturiaeth, oni bae wybod onom-mi gael o Grift ei hun, a'r Apoſtolion, ag anneirif o bobl dda, a chriſtnogion gynt, eu caffau au cenſigenny am yz bn affaith, yn ei herwydd. Canys er erchi o Grift roddi i Cæſar y peth oedd eiddo Cæſar, er hynny fo'i cyhuddwyd ef o gynnwzf, gan haeru arno fwziadu a chwenychy'z depznas. Ag am hynny y lleſwyd yn gzoch yn ei erbyn ef gey z bzon y bzowdle, gan ddoedyd, O gollyngi di hwn yn rhydd nid wyt ti garedic i Cæſar. A'r Apoſtolion er iddynt yn waſtad, ag yn ddyfal, ddyſcu i ddynion y mukuddhau i'r Swyddogion, a bod yn rhaid i bob perchen enaid ym-ddaroſtwng i'r Awdurdodeu dchel, a hynny nid yn bnig herwydd llid, a dial, eithz er mwyn cydwybod; Etto, nid anllai, yz haerwyd arnynt gyſkroi'r bobl, ag annog y gymylleidfa i wneuthyz gwzthryfel. Ffal hyn yn bennaf dim, y pazodd Haman i frenin Aſſuerus gaffau enw a rhi'wogaeth y'z Iddewon, gan ddoedyd, Heſter.

may

may pobl wrth-rysfelgar gyndyn oeddynt yn dirmygu gorchmynion Tywysogion.

1.Reg. 18. Ahab frenin afradlawn a ddoedodd wrth Elias brophwyd Duw, Tydi yw'r hwn sy'n blino Israel. Amazia offeiriad Bethel

Amos.7. a gyhuddodd y prophwyd Amos o gyd-fwriadaeth, gerbron y brenin Ieroboam; Wele (hebr ef) Amos a gyd-fwriadodd yn d'erbyn di ynghanol ty Israel. Ar fyrr o eiriau, peth arferedig (medd Tertullianus

In Apolog.37. yn ei amser ef) ydoedd y cyhuddiad hwn yn-erbyn yr holl Gristnogion, sef, may Trauturieid. Gwrth-ryfelwyr, a gelynion rhywiogaeth ddyn oeddynt. Am hynny od yw'r Gwir yn yr hn agwedd yn cael gogan y pryd hyn; a chan fod y Gwir yr hn fath beth ag ydoedd yr amser hwnnw, od yw efe yn cael yr hn fath ddirmig a di-yfturwch yr awr hon ag yr oedd ef arferedig o'i gael gynt, er bod hyn yn ofid a gyn adfyd, etto ni ddylem-mi dybied o honaw, fal peth a fae newydd, a dieithr. Hawdd oedd iddynt ddeugain mlynedd i heddyw, neu y chwaneg, ddychmygu y perheu melldigedig hyn, a gwaeth no hyn, yn eyn herbyn ni; pan ynghanol tywyllwch yr oes honno y dechreuodd godi a thywynny beth pelydr o'r Gwir, nid adweinid ag ni clowsid son amdano'r pryd hynny: pan ddaeth gyntaf i

wybo-

wybodaeth yr Efengyl, Martin Luther, a Hulderic Zuinglius, deu-wr ragorawl iawn a ddarfuase i Dduw eu danfon i oleuo'r byd; pan oedd yr athrawiaeth yn newydd, ag yn anawdd gwybod pa fodd y cynnydde: pan oedd meddylieu dynion yn llawn amme a rhyfeddod, au clustieu yn lled agored i wrando pob anair ag anwir: a phan ni ellid dychymmig rhemp mor erchyll, na bae'r bobl yn ei goelio yn ebrwydd, o ran newydd-der a dieithrwydd y peth. Llymma'r modd gynt y cychwynnodd Symmachus, Celsus, Iulianus, Porphirius, hen elynion yr Efengyl, gyhuddo yr holl Gristnogion o derfysg a thrauturiaeth, cyn gallu nag o'r Pennaethied, nag o'r bobl wybod, pa beth yr oeddynt yn ei gredu; na pha beth a fynnent. Eithr yrowro'n ar ol i'n gelynion ni weled, ag na allant wad, ddarfod i ni bob amser drwy air ag yscrifen yn ddyfal iawn goffau'r bobl am y peth a wedde iddynt, sef ymufuddhau iw Tywysogion a'u swyddwyr (pe rhoem au bod nhwy'n annuwiol) a chan fod hyn mor hynod drwy hir arfer a phrofiad, ag y mae llygaid pawb, (pwy bynnag ydynt a ph'le bynnag y bont) yn ei lwyr ganfod, ag yn testiolaethu gida ni; brwnt iawn y gwnaethant hwy roi'r

petheu

petheu hyn i'n herbyn; a chwedi methy gentynt grassu ar ddim heieu newydd yn hwyr o amser, yna hwdiwch chwi nhwytheu i geisio'n dwyn metwn cas a chenfigen dzwy'z hen gelwyddeu diflannedig gynt.

I'n Duw ni bo'z diolch yz hwn piau'r achos hyn, na ddamweiniodd erioed etto na therfysg, na Thzauturiaeth, yn yz hn o'z Teyrnasoedd, na'r Arglwyddiaetheu, na llywodzaetheu, a dderbyniasant yz Efengyl. Ni ddarfu i ni ddinistr hn deyrnas nag anrheithio Arglwyddiaeth neb, na gwneuthyz cynnwyf mewn llywodzaeth gwlad yn y byd. Aros yn eu haddas radd au hen ozuchafiaeth, y mae Brenhinoedd Lloegr eyn gwlad ni, Brenhinoedd Denmark, Brenhinoedd Swetia, y Duciaid o Saxonia, y'r Ieirll Palatin, y Marquessiaid o Brandeburgh, y Lansgraulaid o Hessia, Llywodraetheu cyffredin y Swisseriaid ar Rhetiaid, ar dinassoedd rhyddion a elwir Argentina, Basilea, Francfordia, Vlma, Augusta, Norinberga; y rhain y gyd sy yn yz hn cymeriad a'r awdurdod yz oeddynt yndo o'z blaen. Neu'n rhagozach, gwell pw eu cyflwz nhwy herwydd hod eu pobl yn bfuddach dzwy rinwedd yz Efengyl.

Elont,

Elont, y dolwg, i'r manneu hynny lle yz ydis dzwy ddayoni Duw yn pzegethu'r Efengyl: ym-mha le mae mwy bzaint a llai trobledd y Cwysogion? ym-mha fan ydis yn rhoi mwy o anrhydedd i'r Pennaeth? Pa le mae'r bobl yn llai eu hafrol? Ag ym-mha fan y mae llywodzaeth y cyffredin ar Eglwys yn bowddgarach?

Nid bwyrach y doedwch chwi wneuthyz o bobl y wlad gynnwzf a therfysg ymbob man yng-Germania, wzth ddechzeuad athzawiaeth yz Efengyl. Gedwch i hynny fod; etto Martin Luther cyhoeddwz yz athzawiaeth hon, a scrifennodd yn owch-lym iawn ag yn hagraidd dzosben yn eu herbyn bwynt, ag au dygodd nhwy dzach-gefn i heddwch ag dfuddod.

Dod lle y mae dynion anghyfarwydd yn doedyd weithie ngwzthwyneb i hyn, dan son am newidiad llywodzaeth y Swisseriaid, lladdiad Leopoldus y Duc o Awstria, a dad roddi rhydd-did i'r wlad; e wnaethpwyd hynny fal y testiolaetha'r holl ystoziaeu, ychwaneg i ddeucant a thzigain mlynedd i heddyw, dan y Pab Bonifacius yz wythfed, pan oedd ffwyaf rhwysc a

phennaf

phennaf llywodraeth Pâb Rhufain; yng-hylch deucan mlynedd cyn yr bn oz ddau, na dechreu o Huldericus Zuinglius bregethu'r Efengyl, nafi eni ef ychwaith Ag er y pryd hynny etto, e fu bob peth genthynt hwy yn heddychlawn ag yn dangneddefol heb na thwrwf gelynion dieithr na therfysc yn eu plith eu hunain. Ag os ydoedd hyn hechod yn y Swisseriaid, rhoddhau ohynt eu gwlad eu hun oddi dan lywodraeth Estron-geneol, ag yn enwedig pan oeddynt yn cael eu gorthrechu drwy ddirfawr falchder a thrawsder; etto anghyfiawn ag anrhelymmol pw hwzw heieu rhai eraill arnom-mi, neu fwrw arnynt hwy theu feieu eu henafieid.

Eithr o Dduw tragwyddol! wrth hynny ynte, a gyhudda Pab Rhufain nyni o drauturiaeth? A ddysc ef ir hobl y mufuddhau a rhyngy hodd iw Pennaethieid? Neu pw ef yn gwneurhyr hri yn y hyd am fraint a mawredd Twysogion? Pa ham y mae ynte (y peth ni wnai yr hn o hen Escobion Rhufain gynt) yn gadel iw wenieithyddion ei alw ef yn Arglwydd yr Arglwyddi, fegis mynny ono-fo i'r holl frenhinoedd a'r Twysogion pwy hynnag y dynt, aph'le hynnag y maent, fod yn weision chwibanogl iddo ef? Pa ham y mae ynte

Auguſt. ſteuchus Anton. de Roſellis.

ynte yn gwneuthyr ffroſt may Brenhin y Brenhinoed ydyw ef, a bod iddo frenhinol lywodraeth ar ei ddeiliaid? Pa ham y mae ef yn peri i'r holl Pmerodreu, ar Twyſogion, roi ll wr ffyddlõdeb, ag vfudd-dod iddo ef? Pa ham y mae efe yn ffroſtio fod yn bwch ei radd ef no gradd yr Pmerodr agos y deucan cymaint: a hynny'n enwedig oblegid i Dduw wneuthyr dau oleuad yn y Nef; ag er mwyn iddo wneuthyr y Nef ar ddayar, nid mewn dau ddechreuad, eithr mewn vn? Pa ham y darfu iddo ef, a'i galynwyr, yn ol dull yr Anabaptiſtiaid a'r Libertiniaid, fwrw'r Iau heibio ag ymryddhau oddi dan pob awdurdod yn y byd, fal y gallent hwy foelſtotta'n benrhyddach, ag ynddi-ogelach? Pa ham y mae gantho ef Gennadwyr, lef yw hynny, Spiwyr ffel iawn, yn dirgel-ddiſgwyl ofewn llyſoedd, cynghorau, a chyfrinach ſtafelleu pob brenin? Pa ham y mae ef pan fynno fo yn rhoi'r Twyſogion Criſtnogaidd yn erbyn eu gilydd, ag wrth ei chwanteu ei hun, yn aflonyddu'r holl fyd, drwy gynnwrf a chynhennau? Pa ham y mae ef yn eſcumuno ag yn peri cymeryd fal Ethnic, a Phagan, pob Twyſog o Griſtion a ymwrthodo a'i lywodraeth ef? A pha ham y mae ef yn addo enaid rhydd a phardyne-

De maior. & obed. ſolit.

De maior. & obedi. vnam ſanctam.

cyn haeled, a chyn helaethed, i hwy hynnag a'r a laddo vn oi elynion ef, mewn ffordd yn y byd? ydyw ef yn cynnal Ymerodraetheu, a Brenhiniaetheu, neu yw ef vnwaith yn chwenychy heddwch cyffredin? Ti a ddylid, ddarlleydd duwiol, fadde i ni, er dy fod yn tybied adrodd o honom-mi y petheu hyn yn chwerwach, ag a geirieu duach, nog a wedde i wyr Eglwysig eu harfer; Oblegid mae'r deffyn mor wradwyddus, ag awydd y Pab i ddwyn rhwysc yn y byd, mor anrhaith-ddioddef, ag na ellir traethu hyn yn llarieiddach, nag a geirieu amgenach. Canys nid oedd gywilydd arno, na gwladeiddrwydd yntho, ddoedyd mewn cymanfa-Gyngor, may efe'i hun yw atteg holl awdurdod yr holl frenhinoedd. Ag o ran porthi ei chwant awyddus ef, i lywodraethu ag i deyrnassu fal Brenin, ef a ddrylliodd yn ddarneu Ymerodraeth Rhufain, ag a rwygodd holl Gred drwy drallod a therfysc. Diffaith ag fal bradwr y gwnaeth ef ryddhau'r Rhufeinieid, ar Italiaid, ag efo'i hun hefyd, o'r llwf a gymerasai ef a nhwytheu, i fod yn gywir i Ymerodr Græcia, gan wyr-droi deiliaid yr Ymerodr oddi wrtho; a galw Carolus Magnus Martellus, o Ffrainc i Italia, ai wneuthyr ef yn Ymerodr; yr hyn beth ni welsid er

Clement. 5. in concil Viennensi.

Leo Papa.

ioed

ioed mo'i fath. Ef a fwriodd Chilpericus brenin Ffrainc (yr hwn nid ydoedd dwy sog drwg) allan o'i deyrnas, yn vnig er mwyn nad oedd ef yn rhyngy bodd iddo-fo, ag a wnaeth Pipinus yn frenin yn ei le ef. Ag ar ol iddo fwrw allan brenin Philip Dég, ef a ordeiniodd ag a farnodd (pe y gallase ef gwplau ei amcan) frenhiniaeth Ffrainc i Albertus brenin y Rhufeinieid. Ef a an rheithiodd yn llwyr ddifadde ddinas a llywodraeth Florentia ei wlad ei hun: ef a'i dygodd hi o rydd-did a thangneddyf, ag ai dododd dan reolaeth vn gwr fal y galle hwnnw wneuthyr pa lywodraeth a fynne ef, wrth ei ewyllys a'i drachwant ei hun. Efe a osododd yr Ymerodr Carolus y 5, o'r naull du, a Francis brenin ffrainc o'r tu arall, i ddinistr Duciæth Sauoy cyn llwyred, ag na adawyd ir Duc asswyddianus braidd vn ddinas i roi ei ben ynddi.

Zachar. Papa.

Clemens Papa. 7.

Idem Clement

Blin ydym yn adrodd y fath betheu ar rh[illegible], a phoenus iawn fydde goffau holl gampau gwchion Pabau Rhufain. O ba blaid y dolwg oedd y sawl a wenwynodd yr Ymerodr Henri'r. 7-fed, wrth Gumuno? ag a wenwynodd y Pab Victor yn derbyn y caregl? ag a wenwynodd Ioan brenin y deyrnas ymma wrth yfed diod?

Pwy bynnag, ag o ba blaid bynnag yż oeddynt, diau nad oeddynt bwy na Lutheranaid, na Zuingliaid. Pwy beddyw ſy'n cynnwys Wzenbinoedd a Thwyſogion galluawg i guſſanu ei dzaed bendigaid eſ? Pwy ſy'n peri i'r Ymerodz ſefyll wzth ben ei farch; ag yn gozchymyn i Frenin Ffrainc ddal y warthol iddo? Pwy a rwymodd mewn cadwyni Francis Dandalus, yż hwn ydoedd Ddûc o Venis, brenin Creta, a brenin Cypres, ag a'i taflod ef dan ei ſwzdd, i gnoi eſcyzn ymblith cwn? Pwy, nid a'i law, ond a'i dzoed, a gozonodd yż Ymerodz Henri'r 7-fed, ag a'r bn troed a ſwziodd y gozon oddiar ben yż Ymerodz gan ddoedyd, allu o bono-ſo wneuthyż ymerodzeu, a'u dad-wneuthyż bwynt, ſal y mynne efe? Pwy a barodd i Henri'r mab godi mewn arfeu yn nerbyn yż Ymerodz Henri y pedwerydd ei dad ef, ag a wnaeth i'r mab ddal ei dad ei hun yn garcharoz; a phwy wedi cneifio a dirmygu'r Ymerodz, a wnaeth ei ſwzw ef mewn Mynachlog, lle, dzwy newyn, a nychdod, a thzymder, y bu ef farw? Pwy moz frwnt aruthrawl a rodd dan ei dzaed wddf yż Ymerodz Frederic, a rhag na bae hynny ddigon trabaus, ef a dzaethodd yn y chwaneg y geirieu hyn o'z Pſalmeu, Ar yr Aſp a'r Baſi-

Sabellicus.

Cœleſtinus Papa.

Hildebrād: Papa.

Baſiliſc y cerddi, a thi a ſethri dan dy draed, y Llew a'r Ddraic: y fath ddirmyg a diyſtyrwch ar fraint a mowredd Twyſog ni chlywyd ſon amdano mewn oes yn y byd, na chynt na chwedi; oddieithr y peth a wnaeth Tamberlan Wrenin Scithia, yr hwn ydoedd wr ffrom-wyllt di-ddyſc di-ddawn; neu'r hyn a wnaeth Sapores Wrenin Perſia?

Pabau ydoedd y rhain cymain hn, a phob hn yn cadw eiſteddle Pedr Aboſtol, a pha wb o honynt oeddynt Sancteiddiolaf a hefyd rhaid cymeryd amryw eirieu pob hn o honynt fegis amriw Eſengylon.

Od ydym-mi dyauturieid y ſawl ydym yn anrhydeddu'n Twyſogion, ag yn ymmuſuddbau iddynt fegis y mae Gair Duw yn ei erchi, a hefyd yn gweddio dros-tynt; Pa fath ddynion ynte, ydynt hwy, y rhai heblaw gwneuthyr onynt y cwbl o'r petheu rhag-ddoededig, y mae hefyd yn gymeradwy genthynt y fath betheu, fegis pettent weithredoedd da dros-ben? ydynt hwy ynte, yn dyſcu'r hobl fal rydym-i, i ym-uſuddbau iw Penaethied; neu a allant hwy dwy one'rwydd haeru arnom, may dynion cynnurfus ydym, yn terfyſcu'r heddwch cyffredin, ag heb fri gennym ar fraint a mowredd Twyſagion? yn wir,

nid ydym-mi'n bwrw ymmaeth Jau'r ufudd-ddod oddi-arnom; nag yn cyffroi Teyrnassoedd: nag yn gwneuthyr, nag yn dadwneuthyr Brenhinoedd; nag yn newidid llywodraetheu; nag yn rhoi gwenwyn i'n Brenhinoedd iw yfed: nag yn estyn eyn traed iddynt iw cyssanu; na thrwy anfeidrol ddirmygwch yn gossod eyn traed ar gyrn eu gyddfeu hwynt. Chwaethach hyn yw'n haddysc a'n hathrawiaeth ni, may dyledus i bob perchen enaid o ba alwedigaeth bynnag fyddo, ai Mynach. ai Efengylwr, ai Prophwyd, ai Apostol, ymddarostwng i'r Brenhinoedd a'r Pennaethiaid; Ag y dyle'r Pab ei hun alw a chyfadde'r Ymerodr yn Arglwydd arno, ag yn feistr iddo; megis y gwnai Escobion Rhufain gynt yn y byd a fu; oddieithr mynny o'r. Pab gael ei gymeryd yn uwch o radd na'r Efengylwyr, na'r Prophwydi, ag na'r Apostolion. Dyscu i'r bobl yn gyffredinol rydym-mi, may rhaid iddynt ymufuddhau iw Twysogion, fegis i wyr wedi eu danfon oddi wrth Dduw ei hun; a phwy bynnag a safo yn eu herbyn hwynt, sefyll y mae ef yn-nerbyn ordinhaad Duw. Hyn yw addysc eyn hyscol ni: hyn sydd alwg iw weled ag iw glywed yn eyn llyfreu a'n pregetheu ni; a hefyd ymmu

Chrisost. in 13. cap. ad Romanos.

Gregorius Papa sæpe in Epist.

muchedd ag yn llarieidd-ymddygiad eyn pobl ni. A lle maent hwy'n doedyd ddarfod i ni ymado ag hndeb yr Eglwys Gatholic, peth atcas iawn yw hyn; a hefyd; er nad gwir mo'naw, etto y mae llith a llun Gwirioneddarno. Herwydd y cyffredin a'r gynylleidfa anwybodus, ni chaeliant yn hnig y petheu fydd wir a di-amheuol, eithr hefyd y petheu a ddamweiniant yn debig i wir. Ag am hynny ni a welwn, beth yn oeſladal a wnai'r rhai ffel-gyfrwys, oblegid nad oedd wirioneddar eu tu hwynt, ymddadle ag ymrafael a wnaent ymblaid petheu cyfflybus i wir, fegis y twyllid dzwy ryw eulun, a chyffelybzwydd gwir, y rhai ni allent weled gwaelod ag eigion yr achos. Yn yr amſeroedd gynt pan weddie'r criſtnogion cyntaf eyn henaſlaid ni, gan dzoi eu hwynebeu'tu ar dwyrain, yr oedd rhai a ddoede arnynt eu bod nhwy'n addoli'r haul yn lle Duw. Ag er mwyn doedyd o'n henaſleid oi gynt, tu-ag-at am fywyd tragwyddol difarwol, nad oedd gēthynt fodd i fyw ond ar gig a gwaed yr oen di-amliw, ſef, eyn hazglwydd Iesu Griſt; yna y rhai cenfigennus, gelynion croes Criſt, nid oedd arnynt ofal mwy na pha fodd y gallent ddwyn y Grefydd Griſtnogaidd hob ffozdd mewn cam-ogan, a wnaent i'r bobl goelio,

Tertul. in Apolog. cap. 16.

may petheu echzuflawn oeddynt hwy, yn aberthy cig dynion, ag yn yfed eu gwaed.

Tertul. in Apolog, cap. 7.8.9.

Ag er mwyn doedyd o'z Criſtnogion gynt nad oedd ger-bzon Duw, na gwzyw, na banyw, na gwaban-ragoziaeth yn y byd rhwng dynion, tu-ag-at-am allu dyfod i'r bniownder; ag o ran iddynt alw hawb ei gilydd yn frodyz, ag yn chweozydd, wzth ymgyfarch; yna, rhai a baerent, y pzyd hynny ar y Criſtnogion, nad oedd yn eu plith nhwy ddim gwaban, nag o oed, nag o rywiogaeth; eithz cyd-ozwedd onynt bawb gydaʻi gilydd yn ddiwabarddedig fal anifeilieid. A phan ymgfarfyddeʻr Criſtnogion, yn fynych, mewn lleoedd dirgel neullituol, o ran gweddio yngbyd a gwzando pzegethu gair Duw, ag er mwyn bod gwzth-ryfelwyz yn arferu ymgunnull yn yr bn modd, fe roed y gair allan, may cydfwriadu, a chyd-ymgyngbozi yz oeddynt, y naill, ai i ladd y Pennaethieid, ai ynte i ddadwzeiddioʻz llywodzaeth gyffredin. A phan gymerent hwy fara, a gwin, i gwplauʻr Sacrament gyffegr-lan, yn-ol defod Criſt, llawer a dybiaffant nad oeddynt yn addoli Criſt, namyn, Ceres, a Bachus; er mwyn arferu o'z hobl Ethnic, a bara, ag a gwin, addoli'r coeg ddutwieu hynny, yn y gyffelib agwedd, dzwy gam-grediniaeth.

Idē ca. 39.

Auguſtin. contra Fauſtum. lib. 20. cap 13.

Yz

yz oedd llawer yn coelio'z petheu hyn, nid o ran eu bod hwynt yn wir, (canys beth a alle fod yn anwiracty:) eithz o blegid eu bod nhwy'n debyg ir gwir, a thzwy lun gwirionedd yn hawdd iddynt dwyllo'z angbyfarwydd.

Felly y maent hwy'n cambaeru arnom, eyn bod ni yn Hereticiaid, a darfod i ni ymadel ag Eglwys, ag a chymdeithas Crift: Nid er mwyn eu bod nhwy'n coelio fod hyn yn wir (oblegid nid mawr genthynt am hynny) ond o herwydd y galle y rhai angbyfarwydd dybied dzwy ryw fodd, yscatfydd, mae gwir ydyw. Canys nid ymadawfom-mi ag Eglwys Grift ynol arfer yz Hereticiaid, eithz ymadel a wnaethom a dynion dzwg, ag a rhagrithwyz, fal y dyle bob rhai da, rhag. ofn gwaethygu o honom wzth fod yngbyd a nhwy. Etto er hynny, gwneuthur ffrofft a rhodzes ryfedd y maent hwy, gan ddoedyd may hwynt-hwy ydyw'z Eglwys: may eu Heglwys nhwy ydyw Priodaf-ferch Crift, Colofn y Gwirioneddd, Arch Noe, allan o'z hon nid oes obaith cael dim Iechydwziaeth. Dz tu arall, doedyd amdanom-mi y maent hwy, ddarfod ini gilio ymaeth; ddarfod i ni rwygo gwifc Chrift; ddarfod eyn tynny ni y ffozdd oddi wzth

gozph

gorph Crift; a darfod i ni wrthod y ffydd Gatholic. Ag er na adowlont hwy ddim heb ddoedyd, ar a ellid drwy anwiredd ag enllib ei gam-hauru arnom; Etro ni allant hwy fyth ddoedyd (a doedyd y gwir) ddarfod i ni ymadel a gair Duw, nag a'r Apoſtolion, nag ar Brif-Eglwys.

Ni a farnaſſom y Brif-Eglwys o'r eiddo Crift, a'r Apoſtolion, a'r Tadeu ſanctaidd, yn Eglwys Gatholic; Nid amheuwn y chwaith alw'r Eglwys honno, yn Arch Noe; yn Briodaſ-ferch Criſt; yn Goloſn ag yn gynhaliaeth y Gwirionedd: Ag nid ammeu gennym hefyd gyfleu yntbi hi holl hanfod eyn hiechydwriaeth,

Di-ammeu may peth gwrthgas yw ymadel a chymdeithas y ſawl y buoch chwi gynefin a hwynt, ag yn enwedig a'r rhai a gant eu gadel a'u galw yn Griſtnogion, er nad ydynt. Ag o ddoedyd y gwir, nid ydym-mi'n dirmygu Eglwys y gwyr hyn (pa drefn bynnag ſydd arni yr awr'n) er mwyn ei henw criſtnogaidd, a hefyd er mwyn i Efengyl leſu Griſt gael gynt ei goſſod allan yn yr Eglwys honno, drwy burdeb a gwirionedd Ag nid ymadawſem-mi ag y bi chwaith, oni buaſe mewn anghenrhaid, ag o'n hanfodd. Ond beth ynte, o goſſodwyd i fyny Eulun yn Eglwys

Ddutw,

Dduw, a bod y diffaethwch hwnnw a bzo-
phwydodd Crist amdano, yn sefyll yn am-
lwg yn y lle sanctaidd? Weth os yspeilydd,
neu birat, sy'n meddianu Arch Noe dzwy
dzais: Y dynion hyn cyn fynyched ag a
crybwyllant hwy, am yz Eglwys, medd-
wl y maent hwy, may nhwy eu hun yn
bnig ydyw'z Eglwys; gan gyfroddi holl
henwau'r Eglwys iddynt eu hun; a ffrostio
fal y rhai gynt a lefent Temlyr Arglwydd
Temlyr Arglwydd: Neu fal y Pharisæaid
a'r Scrifenyddion y rhai a wnaent ffrost eu Ioan. 8.
bod nhwy yn etifeddion i Abraham.

Llyma ichwi trwy goeg-wych ym-
ddangos, fal y maent hwy'n twyllo'z rhai
anwybodus. ag yn ceisio rhoi bachell ys-
gwyddi ni dzwy nerth henw'z Eglwys yn
bnig: yz bn agwedd a lleidz ar ol iddo bn-
waith frathu y fewn ty gwz arall, ag y naill
ai gwthio allan, ai ynte lladd perchen y ty,
a ddoede gwedi hynmy, may efo'i hun pi-
oedd y ty, ag a gadwe'r aer allan o feddiãt.
Neu yn yz bn modd a phe y dywede Ang-
hrist ar ol ei ddyfodiad i fewn teml Dduw,
bellach fyn-nhy i yw hwn, nid oes i Grist
ddim a wnel ag efo. Canys y gwyz hyn,
er na ddarfu iddynt adel dim yn Eglwys
Dduw sydd gyffelybus i'r Eglwys, etto
nhwy a fynnẽt gael eu cymeryd yn ymge-
leddwyz, ag yn ymddeffynwyz yz Eglwys:

Ar

Ar ol y cyfrpw ffordd ag yr ymddiffynne Grachus, gynt, y cyfoeth cyffredin yn Rhufain, pan dȳwy ehud-traul, a gwario lledynfyd, ni ddarfuase iddo ef adel dim o'r cyfoeth heb wneuthyr pen amdano.

Mi bu dim er ioed etto mor annuwiol, ag mor anrhefymol, na ellid ei bilio a'i ymddiffin, dan enw'r Eglwys. Canys e wna'r cacwn ddilieu mel, fal y gwenyn: a chynnulleidfaeu fy gan y rhai annuwiol; fegis gan Eglwys Ddduw. O blegid nid ydynt, yn ebrwydd, yn bobl Ddduw, yr holl rai a elwir yn bobl Duw; Ag nid Iſraeliaid mor cwbl a ddaeth o'r tad Iſrael. Yr Arriaid, nid anllai er eu bod nhwy'n Hereticiaid, etto ffroſtio a wnaent may hwynthwy'n bnig oeddynt Gatholiciaid, ag a elwent bawb eraill; weithie'n Ambroſiaid, weithie'n Athanaſiaid, weithie'n Ioanniaid. Ag er bod Neſtorius ynte'n Heretic, (fal y doedodd Theodoretus) etto er hynny, ef a fedre ei bilio'i hunan τῆς ὀρθοδοξίας πρόσχημα, ſef, yw hynny, dan ryw rith a gorchudd y ffydd gywir Er bod Ebion o'r bn ſeddwl ar Samaritaniaid, etto (fal y doedodd Epiphanius) ef a fynne ei alw yn Griſtion. Yr Mahometiſtiaid heddyw, er bod yr holl yſtoriaeu'n dangos, a nhwy eu hunain hefyd ni allant wad, ddyfod dechreuad

Auguſt. Epiſt. 48. ad Vincen.

chzeuad eu holl reini hwynt o Agarra y gaethoforwyn, etto er mwyn yz enw, a'r genedl-lwyth, gwell ganthynt eu galw yn Saraceniaid, fegis petent wedi dyfod o Sara y wzaig rydd. yz hon ydoedd bziod i Abraham.

Felly'z gau-bzophwydi o bob oes, y rhai a'mofodaffant yn-nerbyn Pzophwydi Duw, yn-nerbyn Eſai, yn-nerbyn Hieremi, yn-nerbyn Criſt, ag yn-nerbyn yz Apoſtolion, nid oeddynt hn amſer yn boſtio o ddim cymaint, ag o benw'z Eglwys. Ag nid oeddynt moz aruthzawl yn ymgynddeiriogi wzthynt, ag yn eu galw nhwy'n williaid, ag yn Apoſtatiaid, am achos arall yn y byd, ag am iddynt ymadel au cymdeithas nhwy, ag na chadwent ddefodeu'r benaffaid. Am hynny pe y calynem ni'n unig farn y gwyz hyn, a oeddynt yn rheoli'r Eglwys y pzyd hwnnw, ag na cheiſiem wneuthyz yſturiaeth o Dduw, nag o't air, nag o ddim arall; yna ni ellir gwad nad yn gyfreithlawn ag yn ddiſon cyſiawn y condemniwyd yz Apoſtolion, am iddynt ymddidoli oddiwzth yz Eſcobion ar offeiriaid (yz hyn yw, meddant hwy oddiwzth yz Eglwys Gatholic) ag am iddynt newid a newyddhau lawer peth yn y Grefydd, o anfodd yz Eſcobion a'r offeiriaid, ag er eu

hod

bod nhwy yn doedyd yn erbyn hynny. Am hynny fal y gozfu i Hercules gynt wzth ymaulyd ag Anteus y cawz, ei windio ef oddiar y ddayar ei fam, cyn gallu ohonaw ozchfygu'r cawz, felly mae'n rhaid gwindio'n gwzthwynebwyz ni, oddiwzth eu mam nhwy, sef yw hynny, oddiwzth goeg eulyn a chyfcod yz Eglwys; dzwy'z hyn y maent yn ym-rithio ag yn ymddyffin eu hun; ag onid e, ni ellir peri iddynt roi lle'i air Duw. o ran hyn y doedod Ieremi'r prophwyd, Na wnewch cymaint rhodres fod Teml yr Arglwydd gyda chwi; nid yw hyn ond coeg hyder: canys celwyddeu yw'r geirieu hynny. Ag medd yz Angel yngweledigæth Ioan Efengylwr; Doedyd y maent hwy may Iddewon ydynt, eithr Synagog Sathan ydynt. A Chrift a ddoedodd wzth y Pharifæaid, pan ffroftient eu bod nhwyo genedlaeth a gwaedogaeth Abraham, Och Tad Diawl (heb'z ef) yr ydych chwi, nid tebig monoch i'ch tâd Abraham. Cymaint oedd hyny a phe y doedafe fo, nid ydych'i moz dynion a fynnech moz chwannag gael eych cymeryd: ttwyllo'z hobl yz ydych trwy ofer henweu; a cham-arfer yz ydych'i henw'z Eglwys, i gwbl anrheithio'z Eglwys. Rhan eyn gwzthwynebwyz ni a fuafe gan hynny, yn gyntaf dim

Ioan. 8.

tone

wneuthyr prawf gwir di-amheuol, fod Eglwys Rufain yn Eglwys iawn byfforddodig y gwir Ddduw. a'i hod hi'n y modd y mae hi'n cael ei llywodraethu'r pryd hyn, yn gyfatteb oli Brif-Eglwys Crift, a'r Apoftolion a'r Tadeu fanctaidd, yr hon Brif-Eglwys nid amheuwn nad ydoedd y wir Eglwys Gatholic.

Amdanom-mi, pe y barnefem y gellid rhyngy bodd i Ddduw ag ennill Iechydwriaeth tragwyddol, drwy anwybodaeth, amryfyfted, coel-fuchedd, addoliaeth eulynnod, a thrwy ddychmygion dynion, a'r rheini'n fynych yn gwrthwynebu'r Scrythur lan: Ne pe y medraſem ym-roi i goelio ddarfod ſcrifenny gair Duw dros fyrn o flynyddodd yn ynig, ag y bwrjid ef heibio wedi hynny: Neu pe y meddyliaſem fod yn rhaid i archiad a gorchmynion Duw ymddarofttwng i ewyllys dyn; Neu beth bynnag a ddoette, neu a arche Duw, na ddylid cymryd mo'naw namyn fal peth di-ddim di-ddoededig, oddieithr i Bâb Rhufain orchymyn, ag erchi'r bn peth; Pe y clywſem-mi (meddaf) ar eyn calonneu goelio a chredu'r petheu ymma, cyfadef yr ydym na buaſe achos yn y byd i ni ymadel a chymdeithas y gwyr hyn. Ond am a wnaethom-mi, ſef, ymadel a'r eglwys hôno ydoedd a'i hamryfyfedd yn amlwg wedi ei

deſtiolaethu

destiolaethu ir byd, a chwedi darfod iddi gyfeliozni oddiar ffozdd gair Duw; Ag ymadel onom, nid oddiwzth yz Eglwys, namyn oddi wzth ei hamryfysedd, a hynny nid mewn cynnwzf, neu'n anweddus, eithz dzwy dangneddyf a llarieiddzwydd: Ni wnaethom-mi'n hyn o beth, ddim gwzthwyneb i Grist, na'r Apostolion. Herwydd nid ydyw Eglwys Dduw'r fath beth na dichyn llwch, a bzycheu, ddigwydd arni, neu nad rhaid un amser ad-gyweirio mo honi: pette hi felly, pa raid fydde wzth cynnifer Gymãfaeu a Chynghozeu, y rhai (medd Aegidius) ni all ffydd Grist sefyll hebddynt? Herwydd cyn fynyched ag y peidier a dyfyn cymanfa-Gynghozeu, cynnifer-gwaith y mae'r Eglwys yn cael ei gadel heibio gan Grist.

In latera. concil. sub Iulio.

Neu, onid rhaid bnon na ddichyn dim tramgwydd ddamwain i'r Eglwys, pa raid ynte wzth henweu di-les yz Escobion, fal y maent ymblith eyn gwzthwynebwyz ni'r pzyd hyn? Canys, pa ham rydis yn eu galw nhwy'n fugeiliaid, onid oes moz defaid a allant fyned a'r wascar? Pa ham y gelwir nhwy'n warcheidwad, onid oes bn ddinas a ellir eu bzadychu? Pa ham y maen-nhwy'n cael eu galw yn Golofneu, onid ydynt yn attal dim rhag syzthio i lawz

i lawr? yn ebrwydd, ar ol creadwriaeth y byd, y dechreuodd Eglwys Duw gynny-ddu, ag yna, fei cynnyscaeddwyd bi a'r gair nefawl, yr hon a lefarodd Duw oi enau ei hun, Ei dodrefnwyd hi a defodeu dutwiol: hi a gafodd ei dyscu gan yr Yspryd glan, gan y Patrieirch, ar Prophwydi, ag felly y parhaodd hi, hyd yr amser i'r ymddangosodd Crist ei hun yn y cnawd. Eithr o Dduw tragwyddol! mor fynych, ag mor erchyll, yn y cyfamser, y tywyllwyd ag y difwynwyd hi! herwydd ym-hale yr oedd yr Eglwys y pryd hynny, pan ddarfuase i bob cnawd ar y ddaear aflanhau ei ffordd ei hun? Ym-ha le'r oedd hi, pan o holl anneirif bobl y byd, nid oedd onid wythnyn o ddynion (na'r rheini chwaith y gyd yn ddiwair ag yn ddutwiol) y rhai a fynne Duw eu cadw a'i coledd yn fyw, oddiwrth yr aruthrawl gelanedd a'r farwolaeth a fu o'r holl fyd? Pa le yr oedd hi pan gwynodd y Prophwyd Elias mor alarus ag mor dost, na adawfid ond efo'i hun, o holl ddynion y byd, yn addoli Duw'n gywir ag yn gyfiawn? A phan ddoedodd y Prophwyd Esay, Fod arian pobl Dduw (fef yr Eglwys) wedi myned yn fothach: a bod y ddinas honno a fuasse ffyddlon gynt, wedi myned yn butteyn: Ag nad oedd

1. Reg. cap. 19.

Esay. 1.

ynddi fan. iach drwy'r holl gorph, o wastad y pen, byd wadn y troed? Neu pan ddoedodd Crist ddarfod i'r Pharisæaid, a'r Offeiriaid, wneuthyr ogof-ladron o dy Dduw? Gwir ydyw am yr Eglwys, yn yr vn modd ag am faes yd, onis erddir, onis llafuryir, onis triniir, ag onis trwssiir, yn lle gwenith fe a dyf yscall, ller, a danadl. Am hyn y danfonodd Duw'n gynefinawl Brophwydi, ag Apostolion, ag yn ddiwaethaf o'r cwbl, ei fab ei hun, i ddwyn y bobl i'r ffordd vniawn o gyfeliorni, a hefyd i adnewyddu adail, ag i gryfhau gwendid a gogwyddiad yr Eglwys. Ond rhag i ryw rai ddoedyd ddarfod i hyn ddamwain yn vnig yn amser y ddeddf, ar cyscodeu, ag iefieingtyd, pan guddiid y Gwirionedd dan arwyddion a ceremoniæ, pan nid oedd dim etto wedi ei ddwyn i berffeiddrwydd, yryd nid oedd y ddeddf wedi ei scrifenny yngbalonneu dynion, eithr mewn lecheu o gerrig; (er nad yw hyn ond doediad lledffol) herwydd yny dyddieu hynny yr oedd yr vn Duw ag sydd yrowr'on, yr vn Yspryd, yr vn Crist, yr vn ffydd, yr vn athrawiaeth; yr vn gobaith, yr vn etifeddiaeth, a'r vn nerth, a rhinwedd i air Dnw: A hefyd medd Eusebius: yr holl rai ffyddlawn, o Adda hyd yn amser Crist, oeddynt y gyd yn

Math. 21.

lib. 1. cap. 1

gaeth; yn mynny eu gwneuthyr yn gydnabyddus ag achoſſion Creſydd; a'r rhai dan ſcrifenny eu henweu, ag adrodd eu meddylieu mewn Seneddau, ydynt yn cwplau hyn y gyd, nid drwy archiad ag awdurdod arall, eithr yn eu henw eu hunan: A ddoedwn-ni am y rhai hyn, nad yw'n perthnyy iddynt ymyrryd ag achoſſion Creſydd? Neu am y Pennaeth, o wir llyg, a ſo iddo a wnelo a'r petheu hyn, a ddoedwn-ni ei fod ef yn gwneuthyr yn ddrwg, neu'n rhyfygus, neu'n echryſlawn? Yr Ymerodreu a'r Brenhinoedd criſtioneiddiaf a mwyaf eu henaſſaeth a'mkruſſurent gyntyn yr achoſſion hyn; ag etto ni ddoetpwyd er ioed arnynt, o ran hynny, na'u bod yn echryſlawn, nag yn rhyfygus chwaith. A phwy a gais ymofyn am Dwyſogion catholiccaeh, neu am ſampleu arddercboccaeh? Gan hynny, os rhydd oedd iddyn-nhwy wneuthyr hyn, yr rhai nid oeddynt amgenaeh no Phénaethieid o wyr llyg yn llywodraethu Teyrnaſſoedd; pa fai a wnaeth eyn Twyſogion ni'r amſer ymma, nad rhydd iddyn-nhwy theu wneuthyr y cyfryw, nen fod onynt yn y cyfryw radd? Neu, pa nerth gorcheſtol o ddyſc, a barn, a ſancteiddrwydd, ſydd yn eyn gwrthwynebwyr ni, pryd na fynnant i Dwyſogion Criſtnogawl gael gwybodaeth o'r achos eithr eu gwahardd o'n

o'u Seneddau: a hynny'n ollawl yn erbyn deddfod yr hen Escobion catholic, yr rhai oeddynt arfer ynghylch crefydd o'mgyd-gynghori a Thwysogion ag a Phennaethiaid? Wele, y mae'n abl eu helynt nhwy, drwy hyn o fasnach geisio siccurhau eu braint a'u brenhiniaeth; yr hyn a welant a ddiflanne'n fuan oni bae hynny. Herwydd pette'r rhai a ossododd Duw'n y radd uchaf yn gweled ag yn gwybod dichellion y gwyr hyn, pa fodd y maent yn dirmygu gorchmynnion Crist: yn tywyllu ag yn diffoddi goleu'r Efengyl: a pha fodd, drwy gyfrwysdra y maent hwy'n eu twyllo nhwy'u hunain, ag yn eu sommi heb wybod iddynt, dan gwbl afrwyddo a dyr rysu'r ffordd i deyrnas Nef o'u blaen nhwy: ni bydde fyth cyn howsed genthynt ddioddef na'u dirmygu mor drahaus, na'u gwatwar mor wradwyddus gan y rhain. Ond yr ow'on drwy eu di-wybodaeth a'u dallineb eu hunain, y mae'r gwyr hyn wedi eu hieuo hwynt, a chwedi cael methel arnynt.

Nyni fal y doedassom o'r blaen, dan newid crefydd, ni ddarfu i ni wneuthyr dim ar fyr-bwyll nag o falchder; na dim chwaith namyn drwy hir hamdden, a phwyllineb. Yr hyn beth hefyd ni feddyliasse'n calon-

calonneu ni fyth mo 'i toneuthyr, oni buafe o angheurhaid ymufuddhau i bair ewyllys Duw fydd hynodedig i ni 'n y Scrythurau glan, abod yn gorfod arnom hyn o raã achub eyn heneidieu. Herwydd er darfod i ni ymadel a'r Eglwys honno, yr hon y maent hwy'n ei galw'n Gatholic, a'u bod nhwy o raã bymp 'n peri i ni gas a chenfigen gen yr rhai ni wyddant farnu 'n iawn; etto digon cennym-mi, (a digon a ddyle hyn fod gan bob dyn call duwiol a fo 'n meddwl am fywyd tragwyddol,) ddarfod i ni 'madel a'r Eglwys honno yz hon a alle gwympo mewn amryfyfedd, a'r hon y doedodd Crist amdeni (yz hwn ni ddichon amryfyfio) y cwympe hi mewn amryfyfedd; a'r hon a welwn ni 'n amlwg a'n llygeid ddarfod iddi gwympo a chilio oddiwrth y Tadeu fanctaidd, oddi wrth yr Apoftolió, oddi wrth Crift eu hun, ag oddi wrth y Brif-Eglwys gatholic. Ag ni a ddaethom yn nefa 'g allafom at Eglwys yr Apoftolion a'r hen Escobion, a'r Tadeu catholic; yr hon Eglwys nyni a wyddom barhau oni byd yn byn, yn tur ag yn bezffaith, ag yn forwyn wyryf ddiwair, (fal y doedodd Tertullianus) heb na llwgr delw-addoliaeth, na bai gwarthus yn y byd arni. Ag e doarfu i ni bniowni, nid eyn ha-

thrawiaeth yn vnig, eithr y Sacramenteu hefyd, a gwedd eyn gweddieu cyffredin, yn ol iawn ddeddfodeu ag arferau y rhai sanctaidd vchod. Ag fal y gwyddom-mi wneuthyr o Grist ei hun a'r holl rai duwiol, ni a ddygassom drach-gefn i'r dechreuad, a'r drefn gyntaf, y crefydd yr hwn a ddarfuase i'r gwyr hyn fod yn ddi-ddarbodus amdano, a'r ddi-fwyno yn an-rhaith-ddioddef. Oblegid ni a dyblassom may cymhessur oedd geisio di-wygiad crefydd, or man hwnnw, lle y gossodessid gwraidd a gwadneu crefydd gyntaf o'r cwbl: herwydd, fal y doeddd yr hynaf Dad Tertullianus, mawr yw grym a nerth y rhesswn yma yn-nerhyn pob Heresi; sef Beth bynnag ydoedd o'r dechreuad, hwnnw yw'r gwir: a pheth bynnag a ddaeth gwedi hynny, sydd anwir. Mynych iawn y cyrche Irenæus at yr hen Eglwysi oeddynt nessaf i amser Crist, a'r rhai yr ydoedd yn anhawdd coelio allu bod mor amryfyssedd ynddynt. Pa ham nad ydis yn cymryd y ffordd honno'r pryd hyn? Pam na baemmi'n dychwelyd at gyffelybiaeth yr hen Eglwys gynt? Pam n' allwn ni gael clywed doedyd yr amser sydd oni'rowro'n y peth a ddoeddd eynnifer o Escobion, a Thadeu catholic gynt, heb neb iw gwrthwyne-

wynebu'n y Gymanfa Gyngor yn Niçea; nid amgen, ἔθη ἀρχαῖα κρατείτω, ? sef yw hynny, Cedwch yn mastadol yr hen ddeddsodeu. Pan oedd Esdras ar fedr ail adailadu dinistriad Teml Dduw, ni cheisiodd efmor danfon i Ephesus, er bod yno Deml Diana o'r adail gwchaf, a'r gwaith cywreinia'g alle fod: A phan aeth ef ynghylch adnewyddu Aberthau, a gweddus çeremoniae Duw, ni ddanfonodd ef ddim i Rusain, pe rhown, (y scatfydd) a chlywed onaw ef, fod yno'r Aberthau a elwid Hecatombæ, ag eraill a henwid Solitaurilia, a Lectisternia, a bod yno hefyd ymbil-weddiau a llyfreu çeremonia'wl Numa Pompilius. Efe a dybiodd may digon cymwys oedd iddo ef roi geyr ei fron a chalyn cyffelybiaeth yr hen Deml, yr hon a adailasse Solomon o'r dechreuad yn y modd i darfuasse i Dduw lunio; a hefyd yr hen ddeddfodeu a'r çeremoniæ a scrifenasse Duw ei hun yn anad peth i Foyses. Ar ol darfod i Esdras ail-adailadu'r Deml, ag y galle'r bobl dybied fod iddynt achos ddigon cyfiawn i'mlawenychu o'u rhan eu hun, am gael onynt gymaint dayoni gan y goruchaf Dduw; Nid anllai'r Prophwyd Aggeus a wnaeth iddynt y gyd wylo'r dagrau hidl, oblegid y sawl a oeddynt ecto'n fyw ag a welfent

yr adail cyntaf o'r Deml, cyn darfod i'r Babiloniaid ei dinistr, a gofiaffant fod ettto wall llawer o hyfryd-tegwch rhagor ag a fuaffe oz blaen yndi gynt. Yna, wele, y rybiafent hwy adnewyddu 'r Deml yn berffaith, pe y buafe bi 'n gyfatrebol i ben gyffelybiaeth, ag arddercpowgrwydd yr hen Deml. Sainct Pawl o ran di-wygu Swpper yr Arglwydd, yz hwn a ddarfuafe i'r Corinthiaid ddechre 'i lugru y pryd hynny; a ddoddodd o u blaen i hwy ordinhaad Crift fal y gallent ei ddilyn; gan ddoedyd; Mi a roddais i chwi 'r peth a dderbyniais i o'r blaen gen yr Arglwydd.

A Chriſt, gan wrthwynebu amryfyſſeod y Phariſæaid; Rhaid heb'z ef, yw dechwelyd at y Dechreuad; Nid felly yr oedd o'r Dechreuad. A phan oedd ef yn argyoeddu aflendid buchedd yr offeiriaid a'u cybyddra, gan geiſio glanhau 'r Deml, y Ty yma (heb'z ef) yn y Dechreuad ydoedd dy gweddi, lle y galle 'r bobl weddio ynghyd yn dduwiol-ſanctaidd: ag felly yw'ch rhan chwi o 'i gynnal of y pryd hyn hefyd. Herwydd nid adailadwyd mo honaw i fod yn Ogof ladron.

A hefyd, yz holl Dwyſogion duwiol clodfawz y mae 'r Scrythuran glan yn mynegy amdanynt, a gaent yn enwedig ganmoliaeth

moliaeth yn y cyfryw eirieu a'r rhain: ddarfod iddynt rodio yn ffyrdd eu tâd Dafydd; sef yw hynny, am iddynt ddechwelyd at y drefn gyntaf a'r prif ddecrheuad; gan ddwyn drach-gefn a datrroi crefydd i'r perffeiddrwydd lle y gadowsz y Brenin Dafydd ef. Fell y pan welsom-minneu ddarfod i'r gwyr hyn sathru hob peth dan eu traed, ag nad oedd ddim wedi adel yn heml Dduw, onid ôl, a thrist-olwg dinistr ag anrhaith: nyni a dybiasom may callaf cyngor a allem-mi gymryd oedd roi geyrbron eyn llygeid, fraint yz Eglwysi hynny, yr rhai a wyddem-mi'n hyspys na ddarfuase iddynt amryfysso, ag na buase er ioed genthynt na fferenoeu neulltuol na gweddiau mewn estron-iaith barbaraidd, na llugru Sacramenteu, na dim o'z fath ofregedd.

A phan oeddem yn chwenychu newydd adeiladu teml yr Arglwydd, ni cheistassom-mi sail arall, ond a wyddem-mi ddarfod i'r Apostolion ei ossod gynt; sef, eyn hachubwz ni Iesu Grist. Yn gymaint hefyd a chlywed onom-mi Dduw ei hun yn doedyd wrthym yn y Scrythur lan, a chanfod o honom samp'eu godidawg yr hen Bzif-Eglwys; gan weled hefyd may gwaith aniben oedd ddisgwyl Cymansa-Gyngoz,

ag annibennach o lawer ydoedd edrych pa helynt a geid wrth hynny: Ag, yn bennaf dim, gan eyn bod yn cansod yn ddigon hyshys heth oedd ewyllys Duw, ag yn gwybod nad rhydd oedd i ni ymorawl na gofalu am farn dynion; ni allassom-mi ymhellach geisio cyngor gan gnawd a gwaed chwaethach gwneuthyr y peth oedd ddyledus, a'r peth a wnaeth gwyr duwiol, a llawer o Escobiō catholic yn fynych; sef yw hynny, di-wygu eyn heglwysi drwy waith * Senedd-Gymanfa o'n gwlad eyn hun.

*Prouincialis Synodus.

Herwydd nyni a wyddom fod arfer yr hen Dadeu o dreio'r ffordd ymma, cyn dyfod o honynt ir cyffredin Gymanfa-Gyngor o'r holl fyd. Y mae erro tw gweled y pryd hyn Reoledigaetheu serifennedig yn y Cymanfa-Gynghorau a gynhaliwyd yn y diuassoedd rhyddion: nid amgen, yn-ninas Carthago dan Cyprianus, yn Ancyra, yn Neocaseria; yng Gangria, a hefyd yn-ninas Paphlagonia; a hynny, fal y mae rhai 'n tybied, cyn clywed cryhwyll yn y byd am y gyffredin Gymanfa-Gyngor-fawr yn Niçea. Llymma'r modd gynt y cyferfyddid yn ehrwydd a'r Hereticiaid a elwid Pelagianaid a Donatistiaid, a hynny drwy ddadleuad nemltuol cartreng,

heb

heb Gymanfa-Gyngor gyffredin. Yn y modd hyn hefyd pan gymerodd yr Ymerodr Constantius (yngwydd pawb) blaid Auxentius Escob o'r teulu Arriaidd, yna'r Escob Cristnogawl Athanasius a nawdd-gilhodd, nid at y Gymanfa-Gyngor gyffredin, l'e'r oedd ef yn canfod na ellid cael lles yn y hyd (o ran y chwyse yr oedd yr Ymerodr yn ei ddwyn, a'r ymbleidio oedd yno) eithr at ei ddyscedigion a'i hobl ei hunan; sef yw hynny, at Senedd-Gymanfa yn ei wlad ei hun. Felly y gwnawd ordinhaad yn y Gymanfa-Gyngor yn Niçea, ar i'r Escobion ymgynull ag ymgasclu ynghyd ymhob un o'u brouddd, o'r hyn lleiaf, bnwaith hob blwyddyn; yr hyn ordinhaad a wnawd (medd y Gymanfa-Gyngor a gynhaliwyd yngh Calçedonia) fegis hwyn gynta'g y dechreue amcyfyngedd neu gamweddeu darddu, allan yn un lle, y gellid ar y cais cantaf eu gwrthladd nhwy'n y fodfedd lle y dechreuent.

Felly hefyd pan wrthododd Palladius a Secundus y Cyngor yn Aquila, er mwyn nad oedd ef Gyngor cyffredin; e attebodd Ambrosius Escob Mylan na ddyle neb dybied may peth newydd dieithr oedd glywed fod Escobion y Gorllewin yn dyfyn

dyfyn Seneddeu, a chynlleidfaeu, yn en gwledydd eu hun. Herwydd peth cynefinol fuase hynny ymlaen-llaw gen Escobion y Gorllewin, a pheth a arferasse Escobion Græçia ei wneuthyr yn fynych iawn. Felly, y mynnodd yr Ymcrodr Carolus Magnus gynnal Cyngor neu Senedd yngwlad Germania, i drói delwau ymmaeth yn nerhyn yr ail Gymanfa-Gyngor yn Niçea. Ag yn wir, yn eyn plith ni'n hunain, nid newydd na dieithr mo hyn o helynt. Herwydd e fu gēnym-mi ymma'n Lloegr Senedd-Gymanfaeu cyn hyn; ag ni a lywodraethasom eyn heglwysi drwy nerch cyfreithieu cartrefig. Pa raid y chwaneg? diau, am y Cymāfa-Gynghorrau mwyaf a lluosoccaf, a'r a fu er ioed, o'r rhai y mae'r gwyr hyn yn gwneuthyr cymaint ffrost a rhodres; o chystedlir nhwy a holl Eglwysi'r holl fyd, sy'n cydnabod ag yn cyfaddef henw Crist, beth a ellir tybied amdanynt amgenach no'u bod nhwy'n Gyngorau Escobion neulltuol ag yn Seneddau gwledydd ar eu penneu eu hun? Oblegid pe rhoem ag ymgynnull ynghyd o Italia, Ffrainc, Hispaen, Lloygr, Germania, Denmark, a Scotland; etto er hynny, o bydd diffic o Asia, Græçia, Armenia, Persia, Media Mesopotamia, yr Aipht, Ethiopia, India,

a

a Mauritania (yn yr holl amryw wledydd hyn, y mae llawer o ddynion Cristnogion, a llawer o Escobion hefyd,) pa fodd y dichyn neb a fo'n ei gof a'i synwyr dybied may Cymanfa-Gyngor penrheithiawl drwy'r holl fyd yw r Gyngor hwnnw? Neu, lle y mae'n eisieu cynnifer darn o'r byd, pa fodd y gallan-nhwy ddoedyd, yn lle gwir, fod cyd-synniad yr holl fyd genthynt? Neu, pa ryw fath a'r Gyngor, dybygwch chwi, oedd yr hwn a gynhaliwyd ddiwaethaf yn-thef Tridentum? neu pa fodd y gellid galw hwnnw yn benrheithlol drwy'r holl fyd, pan nid ymgynnullasse iddo o holl deyrnassoedd a chenedloedd Cred, onid deugain o Escobion yn vnig, a rhai o'r rheini mor gymmen, ag y buasse gymhessur eu danfon-nhwy adref drachgefn i ddyscu Gramadec, a hefyd mor ddyscedig na ddarllennassent hwy er ioed mor Scrythurau glan?

Beth bynnag ydyw, nid yw Gwirionedd Efengyl Iesu Grist yn mynny cael dal pwys cefn iddo gan Gymanfa-Gynghorau, neu gan farn dynion marwol, fal y doedodd Pawl. Ag os y rhai a ddylent fod yn ofalgar am Eglwys Dduw, ni cheisiant mor synhwyroli, eithr esculusso'r peth a wedde iddynt, a chalettau eu calonneu

yn-nerbyn

yn-nerbyn Duw a'i Grist ef, a cherdded rhagddynt gan wyz-dzoi ffyzdd bniawn yz Arglwydd; e wna Duw i'r cerrig godi a chyffroi, ag a wna'r plant iefanic yn gymmen, fal na bo (bn amser) eisieu rhyw rai neu gilydd i wzthlado eu celwyddeu nhwy. Oblegid e ddichyn Duw (nid yn unig heb Gymanfa-Gynghozau, eithz heth bynnag a wnel y Cymanfa-Gynghozau ay mynny ay peidio (ddiffyn a gozuch-gynnyddu ei deyznas ef.

Llawer o feddylieu (medd Solomon) sydd ynghalon dyn, eithr Cyngor yr Arglwydd a saiff yn ddi-anwadal. Herwydd nid oes na doethineb, na gwybodaeth, na chyngoz, a ddichyn bod yn-nerbyn yz Arglwydd. Nid parhaus (medd Hilarius) mo'r petheu y mae dynion yn eu adailad; rhaid yw adailadu, a chadw adailadaeth yr Eglwys, mewn modd arall; oblegid e ddarfu gossod yr Eglwys ar wadnau a gwaelod-feini'r Apostolion, a'r Prophwydi; a'i chynnal ynghyd y mae'r Congl-faen vnig, yr hwn yw Iesu Grist. Eithr godidawg dros ben, a chymwys iawn i'r amseroedd hyn, yw geirieu Sainct Hieronimus; Pa rai bynna 'g (medd ef) a ddarfu i Ddiawl eu twyllo gan eu denu i gyscu segis drwy selys-gan melldigedig y mor-syrynnion, deffro 'r heini

Hieroni. in Prophetam Naum. cap. 3.

y mae

ymae gair Duw, gan ddoedyd werthynt: Cyfod ti, yr hwn wyd yn cysu, ymdderchafi syny, a Christ a rydd i ti Oleuni. Ag am hynny yn-nyfodiad Crist, yn nyfodiad gair Duw, yn-nyfodiad yr Athrawi eth eglwylig, ag yn-nyfodiad amser cwbl-ddestruwiad Dinas Ninive, a'r butteyn decta'i phryd a'i gwedd, yna y codir i syny y bobl a suase mewn trym-gwsc o'r blaen dan eu Meistred, a nhwy a frussiant i syned i synyddoedd y Scrythurau glan: ag yno y caant hwy y mynyddoedd Moeses, ag Iosuah fab Nun, mynyddoedd erail hefyd, sef yw'r heitti, y Prophwydi, a mynyddoedd y Testament newydd, sef, yr Apostolio, a'r Efangylwyr. A phan fo'r bobl yn ffo am noddfa i'r mynyddoedd hyn, a phan font cynesmol yn-narllead y cyfryw synyddoedd hynny, er na fedront hwy gael neb iw dyscu (herwydd mawr fydd y cynhayaf ag ni bydd nemawr o weithwyr) etto ewyllys da'r bobl a haedda glod, er mwyn ffo o honynt i'r cyfryw synyddoedd; ag esculustra eu Meistred a argyoeddir. Dymma ddoediad Hieronimus, a hynny moz hawdd el ddeallo nad rhaid dibeenglu mo'naw. Oblegid y mae ef moz gyf-attebol i'r petheu a welwn-ni y rowz o'n a'n llygeid, wedi dyfod i ben; ag y gellir

tybied

tybied fod yn ei fryd ef brophwydo ymlaen-llaw, a rhoi'n amlwg geyr-bron eyn hwynebau ni (drwy rywysprzyd prophwydoliaeth) holl helynt a chyflwr y byd sydd oni rowr'on, destruwiad y butteyn Babilon yn llawn gwchder; adnewyddiad braint Eglwys Duw; dallineb a muscrellni 'r Escobion; ag ewyllys da a chwannogrwydd y bobl. Herwydd pwy sydd mor ddall ag na wyl ef may'r gwyr hyn yw 'r meistred hynny. dan yr rhai (medd Hieronimus) yr arweiniwyd y bobl i amryfyssedd, ag y dycpwyd nhwy i guscu? Neu, pwy nid yw'n canfod Rhufain, sef, y Niniue or eiddynt hwy, yr hon a heintiessid gynt â lliwieu hyfryd, eithr yr owr'on gan dynny ei miswrn, y mae'n haws yr olwg ag yn llai'r hris arni? Neu, pwy ni wyl gan ddeffroi gwyr da o'u trym-gwsc, wrth oleuni'r Efengyl ag. wrth glywed llais Duw, ddarfod iddynt gymryd y ffordd yn bniawn i fynyddoedd y Scrythuran glan heb geisio mor ymaros am Gynghorzeu y cyfryw feistred?

Ond trwy'ch cennad (medd rhyw bn) ni ddylessid cychwyn ynghylch y petheu hyn heb orchmynniad Páb Rhufain: yn gymeint ag may efo'n bnig yw cwlwm a rhwymyn y Gymdeithas Gristnogawl:

May

May efe 'i hunan yw'r offeiriad hwnnw o bydd Leui, a fynegodd Duw yn y Deutronomium; oddi wrth yr hwn y dylid ceisio cyngor mewn anghyflwr, a chyrchu barn Gwirionedd. A phwy bynnag nid ymufuddhao iw farn ef, may rhaid ydyw llad hwnnw yngwydd ei frodyr; Na ddichyn neb byw'n y byd, mo'i farnu ef, beth bynna'g a wnelo: fod Crist yn teyrnassu'n y Nef, ag yntef ar y ddayar. Gallu onaw ef yn vnig wneuthyr beth bynnag allo Crist, neu Dduw ei hun, er mwyn bod gantho ef yr vn cynghor-dy ag sydd i Grist: hefyd nad oes hebddo ef, na ffydd, na Gobaith, nag Eglwys; A'r neb a'madawo ag efo, fod hwnnw'n ymadel ag yn ymwrthod a'i iechydwriaeth ei hun. Llymma'r ;siarad sydd gan y Cannonistiaid, coeg wenieithwyr y Pâb, heb gywilydd na gwladeiddrwydd arnynt. Canys braidd y gallent ddoedyd y chwaneg, a diau na ellent ddoedyd dim anrhydeddussach, am Grist ei hun.

Tu-ag-at amdanom-mi, nid ymadowsom-mi ddim a Phâb Rhufain, o ran achos nag ystur, nag elw bydol. Neu'n hyttrach, ni a fynnem pette gystal ymddygiad y Pâb na bae raid mor ymadel ag efo; Eithr yn y cyfryw gyflwr yr oeddem-mi, na allem

allem moꝛ dyfod at Grist, o ddieithꝛ i ni ymadel a'r Pab. Ag ni wna ef yr owꝛ'on na chymmod na chlyfaredd, yn y byd a ni; 1 Reg. 11. ond y fath a wnaethe gynt Nahas bꝛenin yꝛ Amoniaid a dinassoyr Iabes; a hynny oedd, dynny allan llygad deheu dob vn o honynt. Felly y mynne'r Pab dynny o ddiwrthym-minne'r Scrythurau glan, Efengyl eyn hiechydwriaeth, a'r holl obaith sydd gennym yng Hrist Iesu; a rhan ammod amgenach na hyn, ni chymmyd ef ddim a nyni.

Oblegid lle mae rhai'n gwneuthyꝛ rhodꝛes may'e Pab yn vnig sydd berchen eisteddle Pedꝛ Apostol, a megis o ran hynny fod yr yspryd glan gantho'n ei fynwes fal na ddichyn ef ddigwydd mewn amryfyssed; nid yw hyn onid chwedyl ofer a pheth heb ddim. Rhad Duw a addawyd i feddwl da duwiol a fo yn gwir-ofni Duw ag nid i Gadeirieu, nag i eisteddleoedd. Cyfoeth (medd Hieronimus) a ddichyn gwneuthyꝛ vn Escob yn alluoccach no'ꝛ lleill; ond er hynny y mae'r holl Escobion pa wyꝛ bynna'g fyddont, yn perchenogi eisteddleodd yr Apostolion. Onid rhaid wꝛth ddim amgen namyn y lle, a chyssegredigaeth, yna ynte, Manasses a ddigwyddodd yn lle brenin Dafydd

ſydd, a Chaiphas yn lle Aaron. A mynych y gwelwyd Eelun-ddelw yn-Henu Dduw.

Archidamus y Lacedemonian gynt a wnae lawer o rodzes amdano'i hun, ſef, ei ſod ef o waedogaeth Hercules; eitht vn Nicoſtratus a dozrodd grib ei falchder ef yn y modd hyn: Nid ydyw gyffelib (heb'z ef) dy ſod ti'n hanſod o Hercules: Herwydd Hercules oedd yn diſa dynion drwg; tithe wyt yn gwneuthyr dynion drwg o ddynion da. A phan ffroſtie'r Phariſæaid o'u hachau, a'u bod nhwy o genedl a gwaedogaeth Abraham, Chychwi (heb'r Criſt) ydych yn ceiſio ſy lladd i yr hwn a ddoedodd i chwi 'r gwir, modd y clywais i gan Dduw: Ni wnaeth Abraham mo hyn er ioed: yr ydych o'ch tad Diawl, ai ewyllys ef a ſynnwch 'i gyflowni.

Etto er hynny, moeſwch ganiattau peth i'r Gyfeiſteddle; ai'r Pàb yn vnig a ddaeth ynghyfle Pedr Apoſtol? Ymha herwydd (y dolwg)? ymha Grefydd? ymha Swydd? ymha vn pwnc buchedd y ddaeth y Pàb yn ei gyfle ef? Doedwch pa vn peth ir ioed ydoedd gan Bedr Apoſtol yn debig ir Pab? Neu gan y Pàb yn debig i Bedr? o ddiethz yſcatſydd iddynt atteb fal hyn:

Na

Na cheisiodd Pedr er ioed pan oedd ef yn Rhufain ddyscu'r Efengyl i ddynion: na phorthodd ef er ioed mo'r Praidd: dwyn onaw ef ymmaeth oriadeu teyrnas Nes: darfod iddo ef guddio cyfoeth ei Arglwydd: na wnaeth ef ddim onid yn vnig eistedd yn ei gastell a elwir Saint Ioan Lateran, a dangos drwy arwyddoccaad a'i fys, holl leoedd Purdan ag amryw gospedigaetheu: rhoddi onaw ryw rai eneidieu truain mewn dirfawr boenau, a rhyddhau onaw ef rai eraill er gwerth (yn ddisymmwth) ar ei amcan ei hun; neu wneuthyr onaw ef ordinhaad ar ddoedyd fferenneu neulltuol ymhob congl: neu, swnnial onaw ef y gwasanaeth bendigaid mewn llais issel, ag iaith estronaidd: neu ddarfod iddo ef ossod i fyny y Sacrament ymhob teml, ag ar hob allor: a hefyd mynny dwyn y Sacrament amgylch ogylch o'i flaen ef ar farch rhygyngog â chlych ag â chanhwylleu, pa ffordd bynna'g yr ele: Neu, gyssegru onaw ef a'i anadl bendigaid, Olew, cwyr, gwlan, clych, careglau, eglwysi, ag allorau: Neu, ddarfod iddaw ef er ioed werthy Iubileau, rhadau, rhyddollyngiadau, adfowsoneu, blaen-ddamweinieu, ffrwythydd cyntaf, * pallau, gwiscadaeth pallau, bullae, maddeuant pechodeu

*, Simurau.

a

a Phardyneu; Neu fynny onaw ef ei alw yn ben ar yr Eglwys, yn Escob gozuchaf, yn Escob yr Escobion, neu'n hnig Sanct-eiddiolaf: neu gymryd onaw ef dzwy dzais, rol ag awdurdod Eglwysi gwyr eraill arno'i hun; neu ddarfod iddo ef ymryddhau ei hun oddi dan awdurdod hob Pennaeth a fwyddog llyg: Neu, wneuthyr onaw ef ryfel, a gossod y Twysogion ben ben a'o gilydd: neu dan eistedd mewn cader aur a chozon tair-cozonawg ar ei ben, mewn gwechder anfeidzol Persianaidd, (a chantho deyzn wialē frenhinawl a Diadem euraid disclaeredig yn llawn main gwerthfawr) myony onaw ef farchogaeth fesly ar ysgwyddau pendefigion. Tebig iawn may hyn oedd belynt Pedr Apostol yn Rhufain gynt; a rhoi onaw ef ar bawb, o hn hwy i gilydd, a ddele'n ei le ef, gynnal y cyfriw belynt. Hetwydd, llymma'r belynt fydd gan Babau Rhufain y pzyd hyn: a hynny mor gymeradwy ag mor gannoladwy, fegis na bae rydd na gwrddiaidd belynt yn y byd amgenach. Neu'n y gwirhwyneb, nid hwyzach map gwell gan y gwyr hyn atteb fod y Pab yr amser ymma yn gwneuthyr yr holl betheu a wyddoom-mi wneuthur o Bedr Apostol gynt; tet, ei fod ef yn cerdded pant a thalar

ymhob gwlad i brzegethu'r Efengyl; bob vn o'r ddau, yn gyffredinol, ag yn neulltuol hefyd, o dy i dy: hefyd fod y Pâb yn astud iawn, mewn amser, ag allan o amser, mewn tymmor, ag anhymmor: ei fod ef yn gwneuthyr rhan Efangylwr, yn cwplau gweinidogaeth Crist; may efo yw Gwiliwr, a Gwarcheidwad ty Israel; ei fod ef yn cael attebion ag ymadroddion o enau Duw, ag yn adroddi i'r bobl yr vn rhyw betheu ag a gafodd: may efe yw halen y ddayar, a Goleuni 'r byd: nad ei horthi ei hunan namyn porthi'r Praid y mae ef: nad ydyw ef yn ym-rwystruso yngorchwilion a gofalion bydol y bywyd hwn: nag yn arglwyddiaethu a'r bobl Dduw, nag yn ceisio gan eraill ei wasnaethu ef, eithr efo'i hun (rhagorach) yn gwasnaethu eraill: ei fod ef yn cymeryd yr holl Escobion yn gymdeithion iddo, ag yn gystalgwyr ag efo 'i hunan: may ymddarostwng y mae ef i Dwysogiō, fegis i wyrwedi ei danfon oddi worth Dduw; a'i fod ef yn rhoddi i Cæsar y peth sydd eiddo Cæsar: a di-ammeu 'i fod ef yn galw'r Ymerodr yn Arglwydd arno, ag yn feister iddo, fal y gwnae'r hen Escobion gynt. Os y Pabau y pryd ymmanid ydynt yn gwneuthyr y pethau hyn; neu ynte, onis gwnaeth Pedr Abostol y pethau

rhag

rhag-ddoededig o'r blaen; nid oes achos y y byd o ffrostio a rhodzessu cymaint, yngbylch henw a chyf-eisteddle Pedr Abostol. A llai achos o lawer fydd iddynt gwyno am i ni ymadel oddi wzthynt, neu geisio'n dattroi ni dzach-gefn iw cresydd a'u credinineth nhwy. E ddoetpwyd am vn Cobilon a hannoedd o wlad Laçedemonia, pan ddanfonwyd ef yn Gennad-bzddol at frenin Persia, yngbylch clyfaredd a chyfammod Tangneddyf, a damwain iddo gael tylwyth llys y bzenin yn chware disieu; yna, droi onaw ef yn y fan adzef dzachgefn heb wneuthyz dim o'i frussurdeb. A phan ofynnwyd iddo pa ham y darfuase iddo escaeluso'z peth a ozchmynesid (dzwy awdurdod cyffredin) iddo'i wneuthyz: ef attebodd, nad oedd fodd yn ei dyb ef, na buase'n warth a gwzadwydd mawz iw wlad ef, pe-y gwnelse fo glyfaredd a chyfammod a chwzeuddiō disieu. Ond os nyni a glywem ac eyn calonneu ddychwelyd eilwaith at y Pâb a'i amryfyssedd pabaidd; a gwneuthyz cyfammod, nid a chwzeuddion disieu, eithz a rhai gwaeth diffeithiach o lawer na chwzeuddion; e fydde hynny, bob vn o'z ddau, beth goganllyd gwzadwyddus, a hefyd dirfawz enbydzwydd o gynneu llid Duw i'n herbyn, dzwy ozthzymmy

a gorthrechy 'n cydwybodau. Perwydd, a ddoedyd y gwir, nyni a'madawsom a'r hwn a welsom-mi ddarfod iddo ddallu 'r holl fyd er ys llawer can-mlynedd. Ni a'mwrthodassom a'r hwn ydoedd arfer mewn gormod rhyfig a gorwagedd o ddoedyd na alle efo ddigwydd mewn amryfylsedd yn y byd; a pheth bynna 'g a wnele ef, na alle neb byw farnu mo'naw; sef, na Phenbinoedd, nag Pmerodreu, na'r holl wyr Eglwysig, na'r holl bobl y chwaith; ie pe rhown ag iddo ddwyn gyda'g ef fo eneidieu i bffern. E ddarfu i ni ymadel a'r hwn oedd yn cymeryd arno awdurdod, a gallu onaw ef orchymyn nid dynion yn unig, eithr Angylion Duw i fyned ag i ddyfod, i ddwyn eneidieu i'r Purdan, a'u dwyn nhwy oddi yno drach-gefn pan fynne fo: yr hwn y doedodd Gregorius yn ddigon hynod amdano may efe yw rhag-flaenwr a llumanydd Anghrist, a darfod iddo gwympo ymaeth oddiwrth y ffydd gatholic: oddiwrth yr hwn, eyn blaenoziaid ni, yr rhai fydd yr owr 'on yn gwrthwynebu's Efengyl ag yn gwrthladd y Gwir a wyddant, a giliassant ymaeth eyn hyn, eymein hun, o'u gwaith eu hunain ag o wir fodd eu calonneu: a nhwy a gilient yn chwan pog oddi wrtho etto drach-gefn, oni bae

rhag

rhag cywylidd a gogan anwadalwch, a hefyd bod y bzi y mae 'r bobl yn ei wneuthyz o honynt, iw rhwystro. O ddibenny, ni a'madowsom a'r hwn, nid oeddem-mi rwymedig iddo, a'r hwn nid oedd ddim gantho i ddoedyd drosto'i hunan, onid ni wn i pa ryw ysprydoliaeth (a fyn ef fod) yn y lle y mae so'n trigo, a chyhyd barhaad y Gyf-eistaddle.

Heblaw hynny, nyni (yn henna rhai) a'madowsom ag efo yn gyfiawn ag yn gymhessur iawn; oblegid eyn brenhinoedd ni, yz rhai oeddynt fwya 'u gofal a'u goglud ar ffydd ag awdurdod Escobion Rhufain, hwynt hwy a glywsant drymder yz iau, ag a welsant drowsedd brenhiniaeth Pabau Rhufain. Canys Pabau Rhufain a ddugasant goron Henri 'r ail, Brenin y deyznas hon, o ddiar ei ben, ag a wnaethont iddo roi heibio holl ozuchafiaeth, a myned fal gwz heb fri yn y byd arno drwy ostyngeiddzwydd ag vfydd-ymbil at eu cennadwz nhwy; a hynny fegis peth i beri iw holl ddeiliaid ef chwerthin gwatwar am ei ben. Hefyd nhwy a gyffroasant ag a godassant mewn arfau yz holl Escobion, Myneich, a rhai oz Pendefigion, yn-erbyn brenin Ioan, brenin y deyznas hon: a nhwy a ryddhauasant y bobl oddi-wzth y llwf a

ddarfuaſe iddynt dyngu ar ſod yn gywirffyddlon iw bzenin: yn ddiwaethaf, ag yn erchyllaf oz cwbl, nhwy a ſpeiliaſſant y bzenin hunnu, nid o'i frenhiniaeth yn unig, eithz o'i einioes hefyd, dzwy fawz greulondeb. Heblaw hyn hefyd, nhwy a eſcumunaſſant, ag a felldithiaſant frenin Henri'r wythfed yz hwn ydoedd dwyſog anrhydeddufaf, ag a gyffroaſant yn ei erbyn ef, weithie'r Pmerodz, weithie eraill bzenin Ffrainc, gan wneuthyz (gymeint ddim byth a'r allent) wyz ddifrod ag anrhaith o'z deyznas hon. Etto digon ynfydion oedd eu penneu nhwy feddwl yz hn oz ddeubeth, na gallu onynt dzwy waith hwbachod a rhygl-grwyn yzru bzaw ar frenin moz alluawg ag oedd ef, na chwaith traſlyncu (fegis ar hn tamed) frenhiniaeth moz bzif arddercbawg a hon.

A megis na bae ddigon genthynt hyn y gyd, nhwy a fynnaſſont wneuthyz yz holl deyznas ymma'n deyzn-gedawl iddynt hwy, a chodi ar y wlad hon dzeth ag ardzeth anrhaith-ddiddek hob diwyddyn. Llymma i chwi moz ddzud y pzynaſſom-mi gymdeithas dzef Rufain. Am hynny, gan ddarfod iddyn-nhwy eyn cribddeilio ni am y pethau hyndzwy dwyll a dichellion, ni welwn-ni archos yn y byd, na bae

zydd

rydd i ni dzwy foddau cyfiawn, a thzef-nau cyfreithlawn ddwyn oddi arnynt y cyfryw bethau dzach-gefn. Ag os eyn Bzenhinoedd ni ynghanol tywyllwch yz amseroedd gynt, o'u gwir garedigrwydd a'u haelder eu hunain a rowsont y pethau hyn iddynt er mwn crefydd, (ag o ran dar-fod hudo coel a chzediniaeth y Bzenhinoedd dzwy ffuc-sancteiddzwydd y gwyz hyn) etto 'r owz'on wedi dosparthu niwl yz amryfyssedd y dichyn Bzenhinoedd y pzyd hyn, yz rhai ydynt o'z vn alluowgrwydd a'r lleill o'z blaen, ddwyn oddiarnynt yz vn rhyw betheu. Canys ni thal dim y rhodd a'r ni bo wedi siccurhau dzwy ewy-llys y rhoddwz: ag ni ellir tybied may ewyllys perffaith yw'z hwn a fo we-di tywyllu a'i gaethiwo mewn amry-fyssedd.

Ti a weli bellach, ddarlleydd Crist-nogawl, tu-ag-at am Grefydd Crist a ozescynnwyd dzach-gefn yn hwyr, ag sydd wedi geni eilwaith, nad pech diei-thz anghynefinol yw cael o'z crefydd hwn ei oganu a'i wzadwyddo; yn gy-meint a chael o Grist a'r Apostolion yz vn rhyw sarhaad. Ond er hynny, rhag ofn iti adel dy gam arwain a'th sommi wzth glywed y modd y mae'n gwzthwyne-

* Y Destyn, a thalfyr-riad ystyr-iaeth hyn o lyfr.

bwyz ni yn croch-weiddi arnom, e ddarfu i ni ddosparthu yn hyn o lyfr holl agwedd a grym eyn crefydd; fef, beth yw'n coel am Dduw'r Tad, am Ddnw'r vnig fab Iesu Crist, am Dduw'r Yspryd glan, am yr Eglwys, am y Sacramenteu, am weinidogaeth, am y Scrythurau glan, am ddeddfodeu eglwysig. ag am bob darn o'n crediniaeth yng Hrist Iesu. Ni a fynegassom eyn bod ni dzwy ddirfawz gas a dygasedd yn ffleddu (megis pla-heintiau bryntion a gwenwyn eneidiau) yr holl hen Heresiau yr rhai ydynt* euog-farnedig pa vn byn nag ai trwy eirieu'r Scrythurau glan, ai ynte trwy waith yz hen Gymansa-Gynghozau gynt: a'n bod ni ozeu byth ag allom am yz hoedl, yn ceisio cysleu drachgesn a gossod mewn braint, gwir addyse ag athrawiaeth yz Eglwys; yr hyn a ddarfu i'n Gwrthwynebwyr ni eu cwbl ddinerthu a'u di-eneidio: A'n bod ni dzwy nerth hen Gyfreithieu, a thost-hagrwch mwya'g allom (fal y dylem,) yn llwyz gospi holl rysig, anlladrwydd, ag anllywodraeth buchedd. A'n bod ni'n cadw braint ag yn cynsial bri Brenhiniaetheu, yn yr vn cyflwr a chymeriad, ag y cowsom-mi nhwy, heb na lleihau, na newidio dim; gan roddi i'n Twysogion gwbl barch a goruch-fowredd

*gondemniedig.

redd yn fwyaf ag yn hyttraf y gallom. A darfod i ni gilio ymmaeth oddi wrth yr Eglwys honno yr hon a ddarfuase iddynt hwy ei gwneuthyr yn Ogof ladron, yn yr hon ni adowsont hwy ddim yn ddilugredig ar a fae cyffelyh i Eglwys Duw; a't hon a addefassant hwy hunain ddarfod iddi lithro lawer ffordd mewn amryfyssedd. O hon ynte, y ciliassom-mi, fal y ciliodd Lot gynt o Sodom, neu Abraham o'r wlad a elwid Chaldea; a hynny nid o ran chwant ymrafael, eithr wrth archiad a rhybyddiad Duw ei hun: A darfod i ni geisio'n y Scrythurau glan di-dwyllodrus, a thynny allan 'onynt, math a ffurf siccur ar Gresydd, dan ddychwelyd drach-gefn at Brif-Eglwys yr hen Dadeu a'r Apostolion; sef yw hynny, at y dechreuad a'r drefn gyntaf, fegis at sylfaenau a gwaelod-ffynnonnau'r Eglwys. Ag, o ddoedyd y gwir, ni cheisiassom-mi'n hyn o achos ddisgwyl am awdurdod a chyd-synniad y Gymanfa-Gyngor yn-rhef Tridentum, lle y gwelsom-mi nad oeddid yn gwneuthyr dim mewn trefn iawn; lle hefyd yr oedd pawb yn tyngu, ar gynnal braint vn*gwr: lle ni wneid bri na phris yn y hyd ar Gennadeu-brddol eyn Twysogion ni, lle ni chae vn Difinydd na gwr eglwysig o'n crefydd ni

*Y Pab oedd y gw hwnnw.

ni mo'i wrando: eithr lle'r oedd ymbleidio ag ymdrechu am oruchafiaeth: O herwydd pa ham, ni a wnaethom yn y modd y gwnae'r Tadeu Duwiol gynt a'n henafiaid ni'n synych, sef, di-wygu anghyflwr eyn heglwysi drwy waith Senedd-Gymanfa o'n gwlad eyn hun: gan yscwyd oddiar eyn guddfeu (fal y dylem) iau, a thraws-orthrechiad Pâb Rhufain, i'r hwn, nid oeddem-mi rwymedig; a'r hwn nid oedd gantho ddim cyffelib nag i Grist, nag i Bedr, nag i vn Apostol, na dim chwaith cyffelyb i Escob. Yn ddi waethaf oll, doedyd yr ydym eyn bod ni yn cydfod ag yn cyttuno i'n plith eyn hunain ynghylch holl wraidd a sylwedd crefydd: a'n bod ni, megis ag vn enau, vn anadl, ag vn yspryd, yn anrhydeddu Duw, tad eyn Harglwydd Iesu Grist.

Gan hynny; (ddarlleydd duwiol Cristnogawl) yn gymmeint ath fod ti yn gweled yr achos a'r ystyr a wnaeth i ni bob vn or ddau, ddwyn crefydd drach-gefn iw fraint dyledus, a hefyd ymadel ag ymwrthod ar gwyr hyn; ni ddylayt ti mor rhyfeddu ddarfod i ni ddewis ymufuddhau i'n meistr Crist, rhagor nog i ddynion dayarol. Pawl Abostol a'n rhybyddiodd ni na adawem mo'n cam-harwain drwy'r amryw

athra-

athzawiaetheu hynny: ag ar gilio o honom yn enwedig oddiwzth yz rhai a hauent ymrysson ag amrafaelion yngwzthwyneb i'r addysc a dderbyniassent gen Grist a'r Apostolion. Y mae twyll a dichellion ygwyz hyn er ys talm o amser bellach, yn diflannu ag yn cilio 'n ôl, geyz fron golwg a goleuad yz Efengyl; yz vn agwedd a'r dylluan, wzth godiad a thywynniad yz haul. Ag er darfod iddynt adailadu a chodi eu twyll-hudoliaeth cyfywch a'z wybz, etto y mae ef yn cwympo i lawz dzachgefn fegis mewn tro llaw, ag o'i waith ei hun, yn ei herwydd. Canys ni ddylit ti dybied ddigwyddo'r holl bethau hyn dzwy antur, ag nad oes wybod pa fodd: Ewyllys Duw oedd fynny tanu Efengyl Iesu-Grist ar lled trwy'z byd yz amser ymma, a hynny gan-mwyaf yn-nerbyn ewyllys pawb. Ag am hynny wedi i eiriau Duw erchi iddynt, y troodd dynion, o'u gwir-fodd at athzawiaeth Crist. O'n rhan eyn hunain, yn wir Dduw, ni cheisiassom-mi gael oddi wzth hyn o beth, na chyfoeth, na thzachwanteu, nag esmwyth dza, oblegid digon aml yw'z perhau hyn ganeyn gwzthwynebwyz ni; a phan oeddym-mi ar eu tu nhwy, yz oedd yn ehengach arnom

o lawer am gaffaeliad a mwynhaad y fath bethau hydol a'r rhain. Nid ydym mi y chwaith yn gwrthod cymmod a heddwch, eithr o ran heddychu a dyn, ni fynnwn i mor rhyfelaf a Duw. Melys a hyfryd yw henw Heddwch, (medd Hilarius) ond etto vn peth yw heddwch (heb'ref) a pheth arall yw caethiwed. Herwydd o caen-nhwy 'r helynt a fynnent, sef, peri i Grist dewi: bradychu gwirionedd yr Efengyl; rhagrithio amryfyssedd gwarthus; hwrw hud ar lygeid y Cristnogion; a gwneuthyr cydswriadaeth goleu yn-nerbyn Duw; nid Cymmod-heddwch, eithr cam-ammod caethiwed, fydde hynny. Rhyw fath ar heddwch sydd ddi-les (medd Nazianzenus,) a thrachefn, mewn rhyw fath a'r anheddwch y mae lles. Chwennychu heddwch yn ammodol a ddylem-mi, cymhelled ag y bae deilwng geyr-bron Duw, a chymaint fwy, a'g allom. Herwydd amgenach no hyn, nid Heddwch, ond Cleddyf, a ddygodd Crist i'r hyd. A chan hynny o myn y Pâb i ni gymmod ag ef, ei ran ef yw ceisio gan Dduw gymmodi ag efo 'i hun yn gyntaf. Dechre twf Scismau, (medd Cyprianus,) ydyw eisieu myned dynion at y pen, a dychwelyd at ffynnon y Scrythurau glan, ag eiñeu cadw gossodigaetheu a gorchmynion yr Athro

Nefawl.

Nefawl. Canys eisieu gwneuthyr hyn sydd Ryfel, ag nid Heddwch (medd ef). Ag nid cyssylltedig a'r Eglwys mor neb sydd wahanedig oddi wrth yr Efengyl. Ond am y gwyr hyn eu harfer nhwy yw gwneuthyr marchnad a marsiandiaeth o henw Heddwch. Herwydd nid amgen no Thangneddyf bolieu segyrllyd yw'r heddwch hwnnw y maen-nhwy'n ei geisio mor chwannog. Hawdd fydde gwneuthyr cymmod a chlysaredd rhyngthynt hwy a ninne, oni bae fod chwant gorucha fiaeth, a glothineb, ag anllywodraeth yn ei rwystro

Llymma i chwi pam y mae 'r tuchan, eu hryd nhwy sydd ar eu bolieu. Eu holl nad au trin ydyw am gadw drwy gywilydd a gwarth, a enillassant hwy drwy wradwydd. Achwyn arnom-mi'r pryd hyn y mae Pardynnwyr y Pàb, a'i Roddwyr, Ardrethwyr, llattaion, ag eraill yr rhai sy'n tybied may elw bydol yw duwioldeb; heb wasnaethu Crist, eithr eu bolieu eu hun. Gynt gyntoedd y bu elw annianol i'r fath ddynion a'r rhain; a thybied y maent eu bod nhwy'n colli, beth hynna g y mae Crist yn ei ennill. Am hynny mae'r Pàb yn cwyno ddarfod i gariad perffaith oeri, a fferru; er mwyn nad ydis yn talu ardreth iddo ef cyn helaethed ag yr oeddid

arfer

arfer. O ran hyn y mae ef yn peri'n caſſau ni fwya ddim byth a'r allo, gan regu arnom, a'n bwrw yn euog o Hereſi: ſegis y rybio'r ſawl nid ydynt gydnabyddus a'n hachos, nad hyw mo'n gwaeth nt. Etto er hyn y gyd, yn y cyfamſer, nid oes moy cywyliodd arnom, ag ni ddylem moy cywyliyddio o achos yr Efengyl. Herwyddmwy gemym am ogoniant Duw nog am fri dynion. Nyni a wyddom may gwir pw'r holl betbau rydym-mi'n dyſcu; ag ni allwo-ni na mynd yn-erbyn eyn cydwybodau eyn hunain, na dwyn teſtiolaeth yn-erbyn Duw. Canys o gwadwn-ni ddarn yn y byd o Efengyl Ieſu Grift geyr-bron dynion, ynte a'n gwada ninne geyr bron ei Dad. Ag od oes rai a fynnant fyth gymryd achos anfodlondeb, ag na allant ddioddef athrawiaeth Crift, deilion (meddwnni) a thwyſtwyr deilion yw'r rhai hynny: etto, nid anllai, rhaid i ni bregethu a goſod allan y Gwirioneddo flaen pob peth, a befyd diſgwyl trwy ddioddefgarwch am farn Duw. Yn y cyfamſer edrych y gwyr hyn beth a wnelont, a meddyliont am eu hiechydwriaeth; peidiont a chaſſau, ag erlid Efengyl mab Duw, rhag ofn iddynt ryw amſer gael di-wyglwr a dialwr onaw ef yn ei achos ei hun. Ni ddioddefa Duw

mo'i

mo'i watwar. Y mae dynion yn canfod er ys-dyddieu bellach, beth yz ydis arno. Am y fflam ymma, pa fwyaf y cedwer hi lawz, fwy fwy y cyfyd ag y cynnydda hi. Ni woa eu hanffyddlondeb nhwy mo ffyddlon addewid Duw yn ofer. Ond os nhwy ni fynnant roi heibio hyn o galedzwydd calon, a derbyn Efengyl Crift, diau ynte yz aiff Publicanaid a phechaduriaid o'u blaen nhwy i wlad teyrnas nef.

Duw Tad eyn Harglwydd Iefu Grift a egozo eu llygeid nhwy y gyd, i allu gweled y gobaith fanctaidd i'r hwn y darfu eu galw, fal y gallom-mi y gyd yn bn, ogoneddu'r bn hwnnw fydd wir Dduw, a'r bn Iefu Grift yz hwn a ddanfonodd ef i lawz attom oz Nef: i'r hwn, ynghyd a'r Tad, a'r Yſpryd glan, y rhodder holl anrhydedd a gogoniant yn ollawl dzagowydd.

Amen.

## TERFYN.

Yz araaith hy fyddei yn hynech yn-geneu Sanct Aſaph Epiſcop llan Elwy, DXC. Y ſawl a wzthladdant'air Duw, cenhigenu y maent wzth iechyd eneit hyn.

Cyngor

## Cyngor Sanct Ioan Aur-eueu ir llaicon a'rei bydol. cccev.

GWrandewch, attolwc, chwychwi'r lleigion. Mynnwch gahel y-chwi'r Bibl ys meddiciniaeth yr eneit. onyd wyllyſiwch ddim angwanech, mynnwch y Teſtament Newydd o'r hyn lleiaf, yr Epiſtolae, yr Actae. Yr Euangelon, yn'oy ſtatol ac yn ddyval ddyſcyawdwyr y-chwy. Obleit a's dygwydd yt' triſtit neu advyd, edrych y mywn yma ar yr hein megis yn-cell meddiciniaetheu. O ddyma y cymery ymwared ir mallhaint, pa vn pynac vydd ai dygwyddo eniwet yt, ai marwoleth ai collet am tuylwyth. Eithyr na'c edrych y mywn yn vnic, amyn tro a' datro y cwpl oll: a' chynnal yn vevyr yn dy gof. Ac y dalvyrru, hyn yw achos yr oll ddrygeu, eiſieu gwybot yr Scrythurae.

# RICHARD CANRAT

DYW Epiſcop Menew, yn damuno adnewyddiat yr hen ffyd catholic a' *golauni Euangel Chriſt ir Cembru oll*, yn enwedic i bop map eneid dyn o vewn ey Eſcopawt.

YN gymeint am bot i yn gwybot yn yſpys lle ny weleis am llygait, vot pop gwlat o Ruuein yd yma megis Germania vawr, a'r Almaen, Polonia, Lloegr a' Phrydyn, Ffrainc, Llydaw Llychlyn, Iwerddon, a' rrei wrth glun y gelyn yn yr Ital a'r Yſpaen, ie ac mewn ynyſoedd, gorwledydd, artaloedd a' broedd eraill, yn awyddus ac a mawr groeſo yn derbyn gair Dyw drwy ail vlodeuat Euangel ein Arglwydd Jeſu Chriſt, y mae yn dra ſalw genyf dy welet ti wlat Cembru, a vu ryw amſer gyntaf, yr owrhon yn dyvot yn olaf ynghyfryw ardderchawc oruuchafieth a hynn: deffro dithe bellach Gymbro glan, vy annwyl, am care-

dic vrawt ynghriſt Jeſu: paid ath ddigonedlu, paid ath ddirrawy, paid ac edrych ir llawr, tremia y vyny tu ar lle ith hanyw: na chwanega mwy om dolur, cadw ith cof a ddywait ath wir gar: yſtyria ſy tan dy law, cowleidia, ac erbyn attat yr anrheg nefol a ddanfonawdd trugaredd yr Arglwydd yt heddiw. Coffa 'r hen amſer, ymoſyn ath henafiait, chwilia'r ſtoriay, ti a fuoſt gynt anrhydeddus, ac vchel dy fraint. Ni wna vi ſon am vrddas, parch, ac anrhydedd bydol yr hen Brytaniait: tewi a wnaf am y gwrolaeth, dewrder, buddugolaythay, ac anturiaythae y Cymru gynt, mi a'ollynga heibio y amryw gyflyddyday hwynt, ſymwyr, dyſc, doythineb, ar athrylith ragorawl (cyd bai cannioladwy hyn oll, a'digon o profedigaeth rhagorfraint, ac vchelder ymyſc pa naſiwn bynac i ceffit hwynt) ac ny bydday anhawdd i mi roi troſof audurdot o hen lyfray cofion, ac yſtoriay dilys, i gadarnhau a'gwirhau, fod y cyneddfay ar rhinwedday hynny oll yn amlach, ac yn helethach ar y Brytaniait yn yr hen amſer nac ar naſiwn ac ydoedd yw cymdogaeth oy amgylch. Eithr nid ymyrhafi ar ddim or hain. Dwyn cofa

wnaf

wnaf am vn rhinwedd ragorawl a gydbwyſa yrhei vchod oll, ath harddai gynt, ac a rodday yt ragorfraint a goruchelder, ſef crefydd dilwgr, cryſtynogaeth bur, a ffydd ffrwythlon ddiofer. Can ys dowait *Sabellius* hiſtoriawr ddarvot i ynys Prydain dderbyn ffydd Chriſt yn gyntaf vn or oll ynyſoedd, ac nid heb achos: o blegit yn y ddecfet flwydyn ar vgain ar ol derchafiad Chriſt i doeth ir deyrnas hon y Senadur anrhydeddus Joſeph o Aramathya diſcybl Chriſt ac eraill diſcyblon cryſtynogaidd dyſcedic gidac ef: y gwyr hynn megis ac i derbyniaſont wy'r ffydd a'r crefydd ar cryſtynogaeth can Chriſt i hun, ay Apoſtolion, felly y pregethaſont, ac i dyſcaſant yn y teyrnas honn. Nit bychan y goruchafiaeth hynn, cael cenadwyr dyſcedic ffyddlon i'oſot ſail a'dechreuad ſprydol edeiladaeth ffydd Chriſt ym-plith pobyl. Y cynnyrch hwn a ffrwythawdd ac a chwanegawdd rhyd y teyrnas hon o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn bigilydd, eithr heb i gadarnhau trwy gymeriad cyffredinawl a' chyfraith y teyrnas hyd yn amſer Lles vap Coel, rhwn a eilw y Lladinwyr Lucius, hwn a teyrnaſai pan oedd oed

Clxxx. Chriſt 180. Amryw 'ſtoriau a ddoydant
* Eluan. i Lucius yn i amſer ef yn gynta dderbyn
Meduin. ffydd Chriſt ir deyrnas, a danfon * rei
* Fagan i Rufain at *Eleutherius* Eſcop yno, i ddiſy-
Damian. fu cenadwyr i roi Bedydd ac i oſoty Cry-
ſtynogaeth. A dyſot Faganus a' Damia-
mus a' bedyddio y Brenin a' goſot y Cry-
ſtynogaeth yn yr oll teyrnas. Peth or ſtori
hon y ddichin ſod yn wir, ſef danſon or
Brenin i Rufain eithr nid am nat oedd
Cryſtynogaeth yn y deyrnas, ond her-
wydd mwy o ſicrwydd wrth i chael yn
gytun a chrefydd Rufain, rhon oedd
enwog a mawr y audurdot. (ac nit heb
achos) can ys iach a' Chryſtynogaidd
ydoed crefydd a dyſceidieth Rufain yn
hyny o amſer, heb chwaith llawer o
chwynn dychymmig dyn yn tyfu etto y
myſc gwenith gair Duw. Hyn hefyd allay
ſod yn wir cymryt or brenin Lucius be-
dydd can y cenaday hynny, a' thrwy
gyngor yr hein troi eiſteddfay yr Archf-
flaminiait, a'r fflaminiait paganaidd, i ſod
eiſteddfay Archeſcopion ac eſcopion
chryſtynogaidd. Ac yno cynyſcauddu
or Brenin yn gynta yr Eglwyſi ac amryw
fowyt, braint, ac anrhydedd bydol, a' go-
ſot reoledigaythay a' threfn ar waſnay-
thu Chriſt trwy nerth cyfraith ac awtur-
tot

tot Breninol. Hyn i gyt nit amheua i fod yn wir o'ſtoria Lles vap Coel. Eithr troi o Faganus a Damianus yr oll teyrnas mewn byr amſer megis i dowait yr hyſtoria, a' hynny yn ddianot, ddirwyſtyr, ddiwythwyneb, od oeddent paganiait or blaen heb wybot oddiwrth Chriſt, nit mor hawdd i gredu. Can ys cyd bei ffydd Chriſt rhodd Duw, er hyny o wrandaw gair Duw i tyftrwy waith yr Yſpryt glan, trwy fawr boen, a' gwaſtadawl ddiwdrwydd y gwyr llen, y peryglorion, ar eglwyſwyr: ac nid gwaith vndydd vnnos, yw enill teyrnas vaith poblog i ffydd Chriſt. (Yr hynn mwia a alleſont apoſtolion Chriſt, pa wlad bynac i delent, oedd 'oſot ſail a' chynnyrch crefydd Chriſt, rhwn mewn eſpeit o amſer a helethai ac ae ar llet tros wyneb yr oll teyrnaſoedd a'r gwledydd.) Ac eto ir hynn cyd bo achos i ammau llawer o'ſtori Lucius, am hyn i ddym ni yn y geiſio yn bennaf yn y rhyſymmay hynn, ni ddawr pa vn or 'ſtoriay vchot a grettoch: can ys ym hob vn yddym yn gwelet cael or Brytaniait Crefydd Chriſt yn ddilwgr ac yn perffaith. Can ys (mal i doydais uchot) iach ydoedd dyſceidiaeth Rufain ar hynny o amſer, a' chytun ar ſcryth yr

'lan,

'lan, ac Evangel Chriſt. Am hynny, gwir grefydd Chriſt, a gair Duw a hardday y Brytaniait gynt, ac a ddygay uddynt ragorfraint a goruchelder. Ac os ammay neb fod hynn o rinwedd ar wir grefydd Chriſt a' gair Duw: mi a atteba iddo trwy audurtot yr yſcrythr 'lan.

Deut. 4. Mal hynn i dowaid Moyſes wrth plant Iſrael, *Welvvch mi a ddiſcais i chvvi ddeddfay a' Chryfreithau megis i gorchmynavvd Duvv i minay, mal i bo i chvvi i cadvv hvvynt yn y tir i ddych yn mynet yvv'oreſcyn. Cedwch hwynt am hynn a gvvnevvch. Can ys hynn yvv ych doythineb ach dyall ynzolvvc y pobloedd gan glovvet am y deddfay hynn oll, ac a ddoydant, Ibobl yma ſydd vnic ſynhwyrol, a' dyallus, a chenetlaeth favvr. Can ys pa naſiwn ſy cymaint a rhain i davv y dyvviae cyn agoſet attunt, ac i may yr Arglwydd eyn Duw ni yn agos attom ymbob peth ar i galwom attavv amdano.* A' *pha naſiwn ſy cymaint, a bod iddi ddeddfay a chyfreithay cyn gyfiawnet ac ydynt yr oll gyfreithay hynn i ddwy yn i goſot gaer dy fron di heddiw?* Yn y geiriae hyn y mae 'n hawdd gwelet pa ragorfraint a goruchelder a ddwg cyfraith Dduw ir cenetlaethay derbynio, ac ai catwo. Y Brytaniait a dderbyniaſont attunt gyfraith Dduw, gwir crefydd Chriſt,

Chriſt, a'r Efengel ſendigedic, a' hynny yn cyfagos at amſer Chriſt ay Apoſtolion ymlaen yr ynyſoedd oll, ac ae cadwaſont yn bur ac yn ddilwgr yn hir o amſer yn lew ac yn ffynnedic. Can ys cyd byddai terfyſc drablin ac ymlit creulon ar y Chryſtynogion yn amſer Diocleſianus yr Emerodr, rhwn a gymhellodd lawer Chriſtion ym hob gwlad i wadu'r Chryſtynogaeth. Ir gallu or Emerodr trwy waith i gaptayn Maximianus Herculeus wneuthyr llawer or Brytaniait yn verthyron yn gweryl Chriſt, a' diſtrowio 'r eglwyſi, a' lloſci'r Biblae: ni allodd ef ir hynny na diffoddi na gwyraw i ffydd hwy. Gwaed y merthyron, yn wyr, yn wraged, yn veibion, yn verchet, yn wyr-llen yn llygion (yr hei yn dorfoedd o offrymmiae eu cyrph ir tan ir ymddiſin y Chryſtynogaeth) a 'orchfygai greuloneſdd y dygaſoc paganiait, ac a gatway'r ffydd yn gyfan, ac ae hennynnae yn eglurach. Ni allodd chwaith gaulith ac hereſi Pelagius penadur y vanachloc fawr ym * angor gynt (cyd bai ef arfog o bab dyſc a' chelfyddyt, a mawr eu audurtot ae gymeriat yn i wlad) anrheithio 'r Chryſtynogaeth ymhlith y Brytaniait. O ymgoledd

* Bangor ym Mayor.

Duw

Duw ydyntwy ac ir oll Chryſtynogaeth i codai S. Auſtin, Cyryll, Ieron, Oroſius, Benadius, Innocentius, ac eraill gyfryw o'leuadae, a' philerae 'r gryſtynogaeth ae pinnae ae tafodae i wrthladd gaulith ac hereſi Pelagius. Or vnryw ymgeledd Duw ir Brytaniait i codai Dewi Archeſcop, ac eraill ddyſcedigion y Deyrnas trwy 'ofalus a' dyfal pregethu ac yſcrifenu i ddiffoddi'r fflamm ar gwenwyn. Ac i douai hefyd ir dyrnas hon Eſcopion gwynfydedic a' phregethwyr teilwng, Garmon Eſcop Altiſidor, a Lupus Trecenſis, a' chleddyf gair Duw centhynt, i wahanu'r amhuredd a lithraſai i mewn ir Chryſtynogaeth trwy waith yr vnryw Pelagius ae blait, á' thrwy waith cydymdeithas y Sayſon, rhain pryd hynny oeddent paganiait, a' ddarfodd i Gwrtheyrn Brenin y Brytaniait i cynwys ai derbyn ir deyrnas y ryfela troſtaw yn erbyn i'elynion. Ysbys ydyw i bawb' fyn darllain hiſtoriay beth fu ddiwedd yr ymdynnu rhwng y Sayſon ar Brytaniait: y Brytanieit a'orfu arnynt gilio i gyrau ac eithawoedd yr ynys, i Gymru, ac i * Gernyw: y Sayſon a'orchfygaſant, as a wladychaſont Loygr. Ac fal hyn i digwyddodd fod yn

Dewi archeſcop Menevv.

Garmon.

* Cornwell.

yn hir o amſer Paganieit a Chryſtynogion yn yr vn teyrnas, ar unwaith, hyd pan oedd oed Chriſt 600. neu ynghylch hyny, i danfonodd, Gregor Eſcop D.C.
Ruuain Awſtin i droi'r Sayſon ir ffydd. (Nit Awſtin ddyſcedig yr Athro mawr, eithyr Awſtin vanach, rhwn a elwir Apoſtol y Sayſon.) Trwy waith hwn i troed y Sayſon hwyntwthae ir Chryſtynogaeth. Ac velly ir aeth Chryſtynogaeth tros wyneb y deyrnas, cyd bai wahan mawr rwng Chryſtynogaeth y Brytaniait, a'r eilun Chryſtynogaeth a dduc Awſtin ir Sayſon. Y Brytaniait a gadwaſai eu Chryſtynogaeth yn bur ac yn ddilwgr, heb gymyſc dechmygion dynol, mal i derbynieſynt gan Joſeph o Aramathya dyſcipl Chriſt, a' chan Eglwys Runain pan ydoedd bur yn glynu wrth rheoledigaeth gair Duw. Y Chryſtynogaeth a ddug Awſtin ir Sayſon a lithraſai beth oddiwrth puredd yr Eſengel, a' thervynay 'r hen Eglwys, ac ydoedd gymyſcedic a llawer o arddigonedd, goſodigaythay dynion, a ceremoniae nution, anghytun a natur teyrnas Chriſt. Croeſeu a'delway, crio ar y ſaint meirw, pendefigeth Eſcop Ruuain, dwr a' halen Twynedic, a chyſryw oferedd

anhebic

anhebic i yſprydoldep Evengil Chriſta gymyſcai Awſtin a'r Chryſtynogaeth a oſodai ef ymhlith y Sayſon. Chwith oedd can y Brytaniait welet y cymyſciat, ar difwyniant hynny ar grefydd Chriſt. Ac am hynny ar ol ir Sayſon dderbyn cyfryw amhur Chryſtynogaeth a hynn attunt, nit oedd teilwng can y Britaniait gyfarch gwell ir vn o honynt, cyd bai fodlon centhynt or blaen tra oeddent paganiait, cydbrynnu a gwerthu, cyt dyddio, cytfwytta ac yfet, a chydhelyntio ac wynt. Ac nyd eb awdurtot yr yſcrythur lan i gwnai'r Brytaniait hynny: can ys mal hynn i dowait Pawl Apoſtol. 1. Corinth 5. *Obydd neb elvvir yn fravvd yn puteinivvr, neu cybydd, neu addolvvr delvvay, neu 'oganvvr: neu feddvv, neu travvs, na chytfvvyttewch vnvvaith gida'r cyfryvv.* Am hynn i galwodd Awſtin attaw ſaith * Eſcop y Brytaniait, ac eraill oi gwyr dyſcedic ay crefyddwyr i geiſio centhynt dderbyn atunt yr vn drefn ar Chryſtynogaeth ac a ddygaſai ef ir Sayſon, a chydnabot pendevigeth Eſcop Rhufain goruwch oll Eſcopion y byt, ac ymddaroſtwng yddaw. Gwrthod yn llwyr o Eſcopion y Brytaniait hwy ae dyſcedic hyny

* Sef, Henfordd, Taf, Patern, Bancor, Elwy, wic. Morgan.

hynny gytuno ac ef. Ac am Eſcop Rufain eu hattep oedd, na wyddentwy achos i ymddaroſtwng i Eſcop yn y byt onit i Archeſcop Caer lleon ar wyſc. Yn hyn attep a wnai Awſtin yn orddic. Ac am hyny mynet a wnaeth i gynmell, ac i annog Ethelbert Brenhin Cent, a' thrwyddaw yntau Elffrit Brenhin Northwmberland, yr hai a ddoythant yn ddiannot am ben y Brytaniait, ac a laddaſont vil adeucaut o grefyddwyr Bangor a dyſcedigion y Brytaniait, rhain mal i dowait rhai or hiſtoriae a ddeuent yn ddiarfay yn bennoeth droednoeth i ddiſyfu heddwch can y ddau Urenin. Ar ol hynn, o amſer bigilidd i gwanhaywyt y Brytaniait, ac y duc min y cleddyf hwynt or diwedd i gytuno a ffydd y Sayſon, ac i ymadaw a phuredd a' chowirdeb y cynefyn Chryſtynogaeth eu hunain. Ti a glowaiſt hyd yn hyn modd i buoſt anrhydeddus gynt o ran crefydd Chriſt, ar ffydd catholic. Weithian i mynegaf yt yr iſelder, ar goſtyngiat a ddigwyddodd ir Brytaniait. O hyn allan leilai fu ey rhwyſc, a mwyfwy eu gorthrymder ay caethiwet ym hob helhynt bydol. Ac am faterion ſprydol, wedi yddynt cytcordio ar Sayſon mewn

Ethelbert Alphred.

crefydd

crefydd a gau ffydd, cytſuddo gidac hwynt ddwfnach ddwfnach a wnaythont o oes bigilidd mewn pob gauddywiaeth, delw-addolaeth, arddigonedd, ofergoel, a' gauffydd, Ac erbyn attunt dychmygion, traythiaday, a goſodigaythay dynion, yn lle cyfraith Dduw, ac Evengil Jeſu Chriſt: ceremoniae aflafar ac amryw vunydiae hudolaidd, yn lle llafarwch pregethu gair Duw. Sef fal hynn i digwyddawdd cymyſcu Chryſtynogaeth y Brytaniat, ac amhuredd crefydd y Sayſon. Yn neſa at hynn galw ith cof y gollet a gavas y Cymru am eu llyfray beth bynac faynt, ay celfyddyt, ay hiſtoriae, ay Achay, ay Scrythur 'lan: ys llwyr ir anrheithiwyt oll Cymru o honynt. Can ys pan ſoyſtynget Cymru tan goron Loygr trwy nerth arfeu, diammay ddiſtrowio llawer oy llyfray hwynt yn hynny o trin. Ac or hei a ddihanghaſont, medd y Beindd, Pendifigion Cymru a ddygwyt i ſot yn carcharorion t agowydd ir Twr gwynn a gaſclaſont o honynt cymaynt ac allaſont yw dwyn gidac hwynt, ac yw darllain ir diddanwch vddynt yn i carchar, a rhein or diwedd a loſcwyt yn y Twr gwynn: am hynny i canodd y prydydd, *Y ſceler oedd i Scolan, fwrwr twrr llyfray*

*llyfray ir tan.* Pa deſtriw ar lyfray a gavas Cymru o ddiwrth rhyfel Owain Glyndwr, hawdd yw i ddyall wrth y treſi, Eſcoptae, manochlogydd, ar tem'leu a loſcwyt trwy oll Cymru y pryt hynny. Dyma gyflwr greſynawl ar pobl, i dinoithi a' dwyn eu goleunioi canthynt, ae gadael megis yn ddeillion iymdaith ac i ſiwrneio trwy wylltineb y byt hwnn. Val hynn i digwyddawdd na bu naſiwn irioed mor anafus am lyfray a' gwybodaeth yn ey iaith i hun a'r Cymru. Mawr ywr goleuni a ddoeth ir byt, a' mawr i cynyddodd ac i chwanegawdd pob celfyddyt, a' gwybodaeth ſprytawl, a corphorawl, ym hob iaith ym hop gwlad, ac ym hop teyrnas ir pen ddychmycwyt celfyddyt Printio. Eithr mor ddiyſtyr fydday iaith y Cymro, a chyn bellet ir eſceuluſit, ac na allodd y print ddwyn ffrwyth yn y byt yw gyfri ir Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydic cyn hyn i goſodes Wiliam Salſburi yr Efegylon a'r epyſtelay, a arſerit yn yr Eglwys tros y flwydyn, yn Gymraeg yn print, a' * Syr Jhon Prys yntay y Padr, y Credo, a'r x. Gorchymyn. Gwrandaw etto y ſy cenyf ith coffau amdanaw. Wrth yſtyriaeth cwrs crefydd

* Marchog vrddol. 1555.

y

y byt, o Adda hyd at Chriſt, ac o Chriſt hyt heddiw, nit heb achos i gellit ey gyfilybu i ardd lyſiae: 'rhon oi phalu ai chweirio, oi diwallu o blanigion a' haad, oi threſnu, ay chwnny yn ddiwit: teg fyddai, llyoſawc, a' ffrwythlon o pob bath ar lyſiay aroglben, gwrthfawr, rhinweddawl. Eithr oi eſceuluſo, heb nai diwill nai threſnu, nai ymgleddu nai hau, nai chwnnu: diffaith fyddai ac anhardd, ac a fagai ddanadl ac yſcell, drain, dryſi, meri, ac anialwch. Velly crefydd y popl yn y byt hwnn, yr amſeray i bydday pryſur y gwyr llen yn pregethu gair Duw, diwit a dyfal y gwilwyr ſprydol, ar peryglorion yn hau ac yn plannu cyfraith Dduw, ac Efengil Chriſt, ynghalonay 'r popl, ac amyl darlleydd gair Duw: pur a dilwgr ac iach fydday r crefydd. Duw, rhwn a wnaeth nef a dayar, yn vnic addolit ac a waſneithit, ffrwythlon fydday ffydd gobaith a' chariat perffaith, ac amyl pob rhinwedd dda. Yn-gwrthwynep i hyny pan fydday eſceulus, a' diofal, neu anyſcedic yr Eſcopion, pan fai ſegurllyt a deillion yr effeiriait, pan fai'r eglwyſwyr, ar peryglorion yn fut ac heb vngair iawn ddyſc oi pen, a' thrachwant y byt

wedi

wedi dwyn i lleferydd, ac attal eu llais (a' mynychafyſywaeth y ceit yn y byt y cyfryw hynn) ac brin cael vn darlleydd gair Duw, yno i tyfai ac i tyrnafai pob gau ddywieth delwaddoleth, arddigonedd, ofergoel, rrinieu, ſwynion, diffawdd ffydd, magwreth pob rhin ddrwg, ac anwolaeth. Yno ir cſceuluſit gorchmynion a rheoledigaeth gair Duw, ac i mawrheit decimygion, gorchmynion, a' goſodigaythay dynion. Am hynny mawr ſu drugaredd Duw ym hob oes o Adda hyt Chriſt, can ys ni bu nac oes nac amſer, nas danfonai ef prophwyti, athrawon a' phregethwyr, i ddwyn goleuni ir byt, i grio yn erbyn gauddywieth, anheilyngtot, delw-ddolaeth, a' drug fuchedd, ac i rybuddio'r byt i ymchwelyt ir iawn, ac i reoledigaeth cyfraith Dduw, ay orchmynion. O amſer Chriſt hyt heddiw ni bu ddim llai ey drugaredd. Can ys amyl ymhop oes i danvonodd ef genaday dyſcedic, a' phrophwydi ffyddlon i geryddu gauddywieth, arddigonedd, a dychmygion dynion, a buchedd anywiol, a' thrwy awdurtot gair Duw i adnewddy'r hen ffydd, ac i edvryd crefydd Chriſt ar ol rheoledigaeth gair Duw, ar hen athrawon dyſcedic, ac arfer yr hen Eglwys neſa at Chriſt,

Chriſt, ae Apoſtolion a'r oeſoedd neſa at hyny. Eithyr yn benddiſaddae mawr ſu eu drugaredd yn eyn amſer ni o ſewn y trugain mhlonedd hynn: o herwydd llawer o genadau dyſcedic, a' phroph-wydi nerthawl ym hob dyſceidiaeth, eelfyddyday, ieithoedd a gwybodaeth yſprydol. Trwy waith yrhain i may oll teyrnaſoedd Cred o ſewn Europa eyſus wedi egoryt eu llygait, ac yn craffu i ble i dycpwyt hwynt, a'phle i buont gynt, ac yn gwelet eu dyvot adre, a' chael yr hen ffordd, a' dymchwelyt ir iawn, ſef gwir creſydd Chriſt, a'r ffydd catholic ſy ai gwreiddyn yn gair Duw, ac Eſengel Chriſt. Etto (gwae fi o hyn-ny) nit wytti'r Cymro gyſrannoc o ddim hapach or goleuni mawr hwnn ſy tros wyneb y byt. Can ys nit eſcrifen-nodd ac ni phrintiodd neb o honynt ddim yn dy iaith di. Wele, mi a ddan-goſais bellach yt dy vchelder ath fraint gynt, ath oſtyngiat, ath yſpeil wedi. Am hynny, o iawn yſtyryaeth a chydna-bot a thi dy hun ti a ddylyt fod yn llawen, ac yn fawr dy ddiolch i Dduw, i ras y Urenhines, i urddas, ac i gyffredin y deyrnas, ſy yn adnewyddu dy fraint ath vrddas (vrddas tragwyddawl a ro

Duw

Duw yddynt am hyny ) Cans trwy eu awdurtot, ae gorchymyn hwynt i may dy Eſcopion trwy gymhorthwy William Salsbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yſcrythyr 'lan, ( dy genefin gynt ) a gynhwiſir ofewn corph y Bibl cyſegredic. Dyma r haill ran yn barot, rhon a elwir y Teſtment newydd, tra vych yn aros ( trwy Dduw ni bydd hir hynny ) y rhan arall a elwir yr hen Teſtment: etto or hen may r pſalmay cenyt eyſus yn gymraeg yn llyfr y gwaſanaeth. Nit gair oth iaith di ydiw Teſtament: can ys Deddyf, neu ammot, neu lythyr cymmyn i gellit i alw yn ein iaith ni. Gwell ir hynny o lawer o achoſion ( modd i gwnaeth ieithoedd eraill ) yw benthygio y gair yma Teſtament, megis y gwnaeth ein hynaif ni yr hen Vrytanieit wrth dderbyn y ffydd y waith gyntaf, mal y tyſtia y pennill hwn ( y gant rryw prydydd cyfrwyddach na llawer o 'ffeiriait yn oes ni )

Teſtament pa yvv.

Erchais doe val Arch Eſteſn
Eydda adref ai ddodreſn.

*Arca teſtamenti reſtituta, 1 Reg. 6.*

Ac o herwydd bot y gair hwn Eſteſn gwedy treulo cymeint gan davodae'r

bopul anllythyrenoc, a' hcddyw yn ancydnabyddus gan eſcaeluſter y gwyr Eglwyſic, nineu a gymerwn eilchwyl y gair yn vwy cyſan, vegis canmwyaf y mae oll naſioneu Cred yn ei arver: a' phoet ða y treulier eto rhac llaw. A' thrwy Dduw ny bydd ny-mawr o vlynyddeu nes eto myned y gair Teſtament yn ddigon ſathredic, cyffredin, Cymroaidd, ac yn gwbl ddyallus ei iawn arwyddocaat. Teſtament gan hynny a arwyddocaa weithie yn yr ſcrythyr 'lan llywodraeth, neu ordinhaad, a' hynny trwy ymadrodd ar ddammeg, a benthygio cyfflybrwydd o i wrth yr hei a font yn mynet i farw: arfer yr heini yw gwneuthyr teſtament: ſef teſtlaythy i wollys ar llywodraeth a fynnont i fod ar i hol arey da ae dynion. Weithiau arwyddocau a wna y peth a cymuner, ac a wollyſer trwy figur a elwir trawſgymeriat: ac felly i gellir galw maddeuaint y pechodae, teſtment. Y trydydd modd ai cymer yn lle rhwym ueu ammot ſy rhwng Duw a dyn. Can ys Duw ai rhwymawdd ef ihun i ni wewn ammodae, yr hai a fynnawdd ef i bot yn gyhoedd, ac heſpeſu: lle mae i ni welet beth ſy i ni yw gael canthaw: pa ymwa-

Arvvyddocat Teſtament.

Yſpryta-vvl vwyniant y Teſtament.

red

red, pa ymddiffin, pa ytifeddiaeth, pa ymgeledd, a' pha ddayoni. Ac or tu arall, beth ſy i ni yw wneuthyr tra ſom mewn pererintot y byt hwn: beth i mae Duw yn y ofyn cenym, pa wafaneth ae boddhaa, pa fuchedd ai bodlona, ac fydd cymradwy cantho. Dyn herwydd llwgr i natur ni wyr ddim o ddiwrth Dduw, onis cyrch or Teſtament hwn. Yma yn vnic i ceir gwybodaeth am ordinhaad, llywodraeth, a' thragwyddawl wollys Duw: pa anrhydedd, addoliant, a' gwaſanaeth a fynn, pa gretydd, pa 'orchmynion, a' pha fuchedd a eirch. Duw nit oes ynthaw newidiat, nac anwadalwch. Yr un Duw yn yr hen Teſtment, ac yn y Newydd. Ac am hyny yn Teſtment, ywr Hen a'r Newydd, ar randevnydd, ſylwedd ac anſawdd. Galw a wneir yr hyny cymaint oll a ddangoſawdd Duw oi wollys, ae lywodraeth, oi 'ofynion oi 'orchmynion, ir pobl hen cyn geni Chriſt, yr hen Teſtment. Heb wahan yn y byt ir hynny rryngthynt a phobl y teſtment newydd, onit cymaint a fyddai rhwng dau ddyn i rhoit cnau vddynt, ir naill i rhoit hwynt yn i cibae: ir llall yn barawt wedi gwiſcio. Y cyfflybrwyd hwn a ddwc yn egluraeh

Cyfflypiat y ddau Teſtament.

beth dyall it i ar y gwahanieth rwng y ddau pobl ( cymer hynn gida thi : ni pherthyn eſtyn cyfflybrwydd yn rhybell ) velly gan hynny nit o ran y crefydd, ond o ran y modd ir adroddit, ac i dyſcit y crefydd i mayr gwahan. Yr hen pobl i rhoit crefydd Duw, a' Chriſtynogaeth Chriſt attunt tann elfenay bydol, tann ffyguray, cyſcoday, arwyddion, ac amryw ceremoniae, ac ymweini corphorawl. Yn yr hein, a' thann yr hein oi doſparth ai deongl, oe egori ai eſponio i ceid pwyll, ac arwyddocaat ſprydol am tracwyddawl wollys Duw ay gyfraith, a' dyfodiat Chriſt mewn cnawt, eu ddioddefaint a' phrynnedigaeth y byt. Pobl y Teſtament newydd herwydd dyfodiat Chriſt a gowſon rhydit a' gollyngtot o wrth oll ceremoniae, Ffyguray, ac eraill, y rhac ddoydedic arwyddion, ac a roir attunt tracwyddawl wollys Duw, y crefydd, ar Chriſtynogaeth yn agoret, ddiymgudd, mewn yſprydolaeth a' gwir yn i rhith eu hun. Yn y Teſtment newydd yr arwyddion ar oll ceremoniae corphorawl a giliaſont, a ddarfuont, ac a ddiflannaſont. Dau arwydd heb fwy a ordinhaodd Chriſt i bobl y teſtment newydd: Bedydd

Popul Teſtament newydd

a'

a' Chymmun, ne val y gailw S. Paul Swper yr Arglwydd. Hefyt yr hen teſtment a' ordinhaodd Duw tros amſer i vn genedl, ſef ir Iddewon yn vnic: y teſtment Newydd a gyrydd atto oll genhedloedd y byt, heb wahan rhwng naſiwn ai gilidd. Bellach may cenytti amcan pam i gelwir y naill yn Hen, ar llall yn Newydd: yn hen am i fot yn dyſcu tracwyddawl wollys Duw, y gwir creſydd a' Chriſtynogaeth yr hen pobl cyn geni Chriſt: yn newydd am i fot yn dyſcu yr vn peth ir pobl wedy geni Chriſt: yn hen am i fot yn dyſcu vn genhedlaeth yn vnic, ſef yr Iuddewon: yn newydd, am i ſot yn dyſcu oll genhedloedd y byt yn ddiwahan. Yn hen am i fot yn dyſcu trwy arwyddion elfenay bydol, a' ceremoniae corphorawl: yn newydd am i fot yn dyſcu yn 'olau ddiymgudd trwy yſprydolaeth a' gwir yn i rith i hun. Cymer ef ith law, ſymrawd, a' darllain: yma i cei welet ple i buoſti gynt, yma i cei ymgydnabot ath hen ffydd, ar Chryſtynogaeth ganmoladwy oedd cenyt gynt. Yma cei'r ffydd a ymddiffynaiſt hyd at tan a'r cleddyf, ac i merthyrwyt dy crefyddwyr ath rei dyſcedic gynt yn i chweryl. Ti ond

Dau ſacrament neu arwydd yn y Teſtament newydd yn vnic.

Hen. Newydd

antur, dierth yw cenyt glowet ſot dy hen ffydd di ay hanes or Teſtament, a' gair Duw: can ys ni welaiſt ir ioed y Bibl neu'r Teſtament yn Gymraeg nac mewn ſcrifen nac mewn print. Yn lle gwir ni ffynnodd cenyfi irioet gael gwelet y Bibl yn gymraeg: eithr pan oeddwn fachcen cot yw cenyf welet pump llyfr Moyſen yn Gymraeg, o ſewn tuy * ewythyr ym 'oedd wr dyſcedic: ond ni doedd neb yn yſtyry llyfr, nac yn priſio arno. Peth amheus ydiw (ir a wnn i) ellir gwelet yn oll Cymru vn hen Bibl yn Gymraeg ir penn golledwyt ac i ſpeliwyt y Cymru oi oll lyfray, mal i doydais or blaen. Eithr diammay yw cenyf ſot cyn hynny y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg. Perffeithrwydd ffydd y merthyron, eglwyſwyr a lleigion a ſonnais vchot amdanunt, ſy brawf cadarn ſot yr Scrythyr 'lan centhynt yn i iaith eu hunain. Can ys nid oes dim cyn ablet i ficcrhau ffydd mal i bo gwiw can ddyn ddyoddau marfolaeth yn i chwerylac ydiw gair Duw i bo dyn yn i wybot, ac yn i ddyall y hun. Val hynn hefyt i dowait *Euſebius de præparatione Evangelica, lib. 9. Prædicatum eſt itaque Evangelium brevi temporis ſpatio in toto orbe terrarum, & Græci & Barbari*

Cyffelip mae Gruff. ap Jeuan ap Llu. Vachan y mae ef yn ei veddwl.

*Barbari quæ de Jeſu ſcripta erant patrijs literis patriaque voce excepernnt.* Yr eſengil (medd eſ) a bregethwyt mewn byr amſer yn yr oll fyt, ar Groegwyr ar barbariait a erbyniaſont yr hyn a ſcrifennit am Jeſu, yn llythrenae, ac yn iaith y wlat. Wrth y geiriay hyn i gallwn ddyall fot y Teſtament nit yn vnic yn iaith y Brytaniait, eithr hevyt yn iaith pob gwlat a gretai i Chriſt. Y trydydd rheſwm yw hwn, may cenym ni yn Gymraeg ymadroddion a' diharebion yn aros fyth mewn arfer a' dynnwyt o berfedd yr ſcrythyr 'lan, ac o ganol Eſengil Chriſt. Yr hyn ſy protedigaeth digonawl vot yr Scrythyr 'lan yn gyffredin ym hen pob bath ar ddyn, pan i dechreuwyt hwynt, a phan i dycbwyt i arfer gyffredinol. Myfi a nota ac a ddyga ar gof yt rai o honynt. Yn fath redic i doydir, A' *Duvv a digon: heb Ddiuvv heb ddim.* O ble i cad hynn o ddyſceidieth, ple i mae i wreiddin ae warant? onit hyn yw gyriat a' chloedigaeth yr oll Scrythyr 'lan? onit hynn i mae 'r prophwydi, a'r pſalmae, a'r Teſtament newydd trwyddo yn i ddyfcu i griſtion o ddyn? Nit rhaid yma fanwyl chvilio am teſtiolaeth: rheitiach, yw can i bot mor amyl

edrych

edrych pa rai a ddewiſer, a pha rai, i geiſio byrhau'r traythawt, a adawer. Mal hynn i dywait y prophwyt Dauyd,

Pſalm. 23. *Yr Arglwydd ſy bigail ym, ni bydd arnaf eiſie. Ef a bair ym orphowys mewn porfa 'las, ac am arwain gar llaw dyfredd arafa dl. Ef a ymadfertha vy enait, ac am towys rhyt llwybray vnion ir mwyn eu Enw. A' phe rhodwn rhyt glynn cyſcot angae, nit ofna ddrwg, am dy vot ti gyda mi: Dy wialen ath ffon hwy am cyſuront, &c.* Chwi a welwch yn y pſalm yma vn o wraidd y ddihareb ſy cenym, re a glowch yr vn bwyll yn y pſalm ac ſyn y geiriae hynn. A *Duw a' digon, &c.* darllain y rhan ddiwaytha or pumet penn o Evangel Mathew, lle i mae Chriſt Arglwydd yn erchi i ni na bom gofalus am beth yw fwyta, ac yw yfet, ac yw wiſco: ac yn erchi y ni cymeryt ſiampl o adar yr wybr a lili'r meyſydd: rhain i mae Duw yn i diwallu o borthiant a gwiſc. Ac am hyny i perthynae i ddyn nad amheue ymgeledd a' gallu Duw, a' chredu i cowira ef i addewid, ſef i bydd pob peth yn ddiandlawt ir neb a ofalo yn gynta am teyrnas Duw ae chyfiownder. Ac am hyny gwir yw'r ddihareb, A *Duw a' digon.* Yſtyria yma, hefyt hyn a ddowait Chriſt

Chriſt yn y ix pen o Evangel Luc, *Beth a dal i ddyn ynill yr oll fyd ae ddiſtrowio i hun, neu i golli i hun? Canys pwy bynac a gwvilyddio om pleit i, am geirie: o bleit hvvnvv i cvvelyddia Mab y dyn pen ddelo yvv 'ogoniant, &c.* ac velly rhagoch. Yn yr ymadroddion hyn, ac yn y geirie ſy neſa o vlaen yr hain yn y penn doydedic, i gweli gadarnhau y ddarn arall ir ddihareb, ſef, *Heb Dduw, heb ddim.* Tro bellach at yr viii pen o'pyſtel Pawl aboſtol at y Ruueniait. *Beth ddoydvvnn i gan hynny vvrth y pethae hynn? Obydd Duvv gida ni, pwy a all fod eyn herbyn? Rhwn n'd arbedodd i Vab y hun, eithr ae rhoddes troſ ommi, pa fodd nas rhydd ef hefyt pob peth yn gidac ef?* Nid rhaid ym boyni ymhellach i ddwyn ar ddyall yt o ble i tyſodd dihareb y Cymro, A' *Duw a digon: heb Dduw, heb ddim.* Yn yr Scrythr 'lan i mae i gwraidd, ey hanas, ae dechreuad. Ond (y ſywayth) cyd bo 'r ddihareb yn aros y myſc y Cymru, ar geiriae 'n gyffredinawl, etto hi a golles yn llwyr i ffrwyth. Edrych ar ddull y byd, yno i cei brotedigaeth. Mae 'n gymaynt trachwant y byd heddiw i tir a' dayar, y aur, ac arian, a' chowaeth, ac na cheir ond yn anamyl vn yn ymddiriet

Luc. 9. 25.

Ru. 8. 31.

Ei ddolur tros ei wlad. Bot y Cembru wedy digenedlu y wrth ddywolder eu hynaiſ.

riet i Dduw, ac yw addaweidion. Trais a lladrad, anudon, dichell, ffalſter, a'-thraha, a rhain megis a chribynae mae pob bath ar ddyn yn caſclu ac yn tynnu atto. Ni fawdd Duw y byd mwy a dwr diliw: eithr mae chwant da'r byd wedi boddi Cymru heddiw, a' chwedi gyrru ar aball pob ceneddfae arbennic a rhinwedd dda. Can ys beth yw ſwydd yng hymru heddiw ond bach i dynu cnu a chnwd ey gymydoc attaw? beth yw dyſc gwybodaeth a' doythineb cyfraith ond drain yn yſtlys y cymedogion i beri yddynt gilio hwnt? Amyl ynghymru, ir nas craffa cyfraith, i ceir neuadd y gwr bonheddig yn noddfa lladron. Maddeuwch i mi hyn o gaſwir, herwydd precethu'r caſwir ys y yn ſars y precethwr: am hyny pe rryngwn vodd dynion ny byddwn waſanaethwr Chriſt, yr hwn y glywaf ey lef yn imcluſt yn ſonio, *I lefa yn groch, nac arbet: dyrcha dy lais val trwmpet, a'manec im popul eu henwiredd ai pechoteu*: nyd ynteu molach, nyd gweniaith, nyd petheu bodlon. Am hyny y dywedaf, oni bai fraych ac adain y gwr bonheddig ni bydday ond ychydig ladrad ynghymru. Mi a wn fod boneddigion o wyr da ac yn caſau lladrat, ac yn difa lladron:

*Yn erbyn camarver traws ſwyddogion a chyfraithwyr hocedus.*

lladron: nid wyfi yn doydet dim yn erbyn yr heini. Ni chafi o ennyt yma fanegi yr anrhaith a wnaeth chwant da byd, ac angrhedinieth i addaweidion Duw ar bob rryw ddyn ynghymru o eifio dyfceidieth yr yfcythr 'lan, a' chydnabod a' chowirdeb a grymm y ddihareb fy gyffredinol yn i myfc, A' *Duvv a' digon, heb Dduw heb ddim.* Yn nefa at hyn, ni a gymerwn yr ymadrodd hwn, fef A' *gair Duw yn vcha*: ymadrodd cyffredinawl ydyw yn ygwlad i, pann amcano dyn ddoydet, gwneuthyr, neu fyned y vnlle, val hynn i dowait, Mi a wna, ni a ddeyda, neu mi af ir man a'r man a gair Duw yn vchaf. *Iaco. 4. 15.* Evengelaidd a' chryftynogaidd yw'r ymadrodd hwn a' chytun ar fcrythyr 'lan or lle i ganad ac i magwyt. Can ys vellyn e dowaid y prophwyt Dauyd, *Vnion yw gair yr Arglwydd, ae oll weithredoedd ef y fy ffyddlon*, ac ychydig rhag llaw. *Trwy 'air yr Arglwydd i gwnaethpwyt y nefoedd ae oll byddinoedd hwy, trwy yfpryt eu enau.* Pfalm. 33. A'r prophwyt Efai yntau. *At y gyfraith ar prophwydi, oni ddoydant hwy ar ol y gair hwn: hyny fydd am nad oes goleuni yn thunt.* Efai. 8. Chrift yn y. xxiiii. pen. o Mathew. *Nef a dayar a gerddant, eithr fyngeiriau*

*ſyngeiriau i nid ant heibio.* A' thrachefn *O car neb ſi, ef a geidw ſyngair i.* Jo. 14. yn y mannae hyn i mae hawdd gwelet o ble ir hanoedd yr ymadroedd hwn, A' *gair Duw yn vcha.* Pan ddechreuwyt a' phan ddycbwyt yr ymadrodd hwn i arfer gyffredinawl i rydoedd gair Duw yn anrhydeddus, ac yn fawr y bri arno. Can ys pan ddoyto dyn, A' *geir Duvv yn vcha,* cymeint yw a' phe doydei, Trwy na bo yn erbyn gair Duw, neu, a gair Duw yn caniadu: neu trwy i vod yn gytun a gair Duw mi a wnaf, neu mi a ddoyda hynn neur llall. Wrth hyn credu i roydd dynt yn yr amſer hwnw nad oedd iawn yddynt wneuthr, na doydet dim yn erbyn gair Duw. Dyna ffydd a chrefydd y Cymru gynt a ddyſcent wy or ſcrythyr 'lan, o 'air Duw, ac o Evangel Jeſu Chriſt. Eithr i ble y tynnodd Eglwys Ruuain hwynt wedy hynny? Yn wir nid i adael gair Duw yn vcha, ond yw ddiſtyru ae fych anu. Gair Duw a ddowait, *Na vvna y ty hun ddelvv gerfedig, na llun dim y ſy'n y nef vchod, neu yn y ddayar iſod, nac yn y dvvr dan y ddayar: nac ymoſtvvng vddynt, ac na addola hvvynt.* Ni alleſit rhag cwilidd ddwyn delwae ir Eglwys ai addoli hwynt (megis i mae arfer Eglwys Ruuain)

Ruuain ) pe gadowſit gair Duw yn vchaf.

Can ys vn or deg gorchymyn Duw ydyw, *Na vvna y ty hun ddelw, &c.* Yma i cei di weled dichell Antichriſt. Ar ol y Senedd neu'r gymanfa yn Conſtantinopol tan * Conſtantinus yr Emerodr lle i roedd 330 o eſcopion pan oedd oed Chriſt ſaith cant a' xxxix. ac ar ol ir eſcopion hynny trwy awdurdot gair Duw wahardd delway tros yr oll Chryſtynogaeth, wedi marw Conſtantin ynghylch pan oedd oed Chriſt ſaith cant a lxxiii. Elen y Vam ef a alwodd cymanfa o 330 Eſcopion yn Nicea, a' thrwy eiriol Elen yr eſcopion hynny a ymddiffynnaſont ddelway yn erbyn gair Duw; ac a paraſont trwy awdurtot oſot delway yn yr Eglwyſi, ai addoli hwynt. A' rhac cael or oll fyd vai arnynt hwy neu ey plait, hwynt a baraſont tynnu vn or dec gorchymyn ymaith, ſef hwn oedd yn gwahardd delway, ac i gadw y rhifedi hwy doraſont vn gorchymyn yn ddau, ſef y gorchymyn diwaytha. Ni allaſont wy wneuthyr hynny ynghorph y Bibl ond am y Copiae or x gorchymyn a roid allan, ac a ddyſcit yn yr Eglwyſi, ac i yſcolheigion:

* Cwſtennin Conſtantinus o cccxxx. o Eſcyp.

gion: ni cheit yn vn or heini yr ail gorchymyn sy'n gwahardd delway. Y mae cenyfi hen copiae i brovi bot hynn yn wir. Hefyd pan oeddwn i yscolhaig val hynn i dyscay'r effeiriait y x. orchymyn.

*Vnum crede Deum, ne jures vana per ipsum.*
*Sabatha sanctifices, habeas in honore parentes.*
*Ne sis occisor fur, moechus, testis iniquus.*
*Alterius nuptam, non rem cupies alienam.*

Decalogus à pp. decurtatus.

Dyma adael allan yr ail gorchymyn Duw yn gyfan, rhac cael cwilidd am i gwaith yn ymddiffin delwae, os goddefit ir pobl wybot a' gwelet, vod gorchymyn Duw yn erbyn delwae. Val hyn i rhoddai Antichrist ae weision air Duw yn isa, ac nid yn vcha mal i roedd ffydd y Cymro gynt yn doydet. A' *gair Duw yn vchaf.* Y geiriae hyn pwy bynac ae cymer hwy cantho megis canwyll yn i law, hwy a gyhuddan, ac a ddangosan lawer o frynti, ac o oferedd crefydd Runain, yr hwn nyd oedd ddim amgen, val ymae'r ddiareb, onid fomi Duw a manach marw: ond ni chafi dario, rhaid i mi dalvyrru 'r araith rhac bod yn rhyhir.

Y trydydd ymadrod cyffredinol y mysc y Cymru a dynnwyt or yscrythyr 'lan yw hwn, *Y mab rhad.* nid oes yma onid

Ioan. 1.

onid tri gair byr o vn ſilla bob gair, etto maynt yn cynhwyſo llawer o ſynwyr ac o addiſc ſprydol. yr hyn i mae 'r trydydd penn. ar pedwerydd o epyſtl Pawl at y Ruueiniait, yn benna yn i ddyſcu, a llawer man or ſcrythur 'lan heb law hynny. Yr vn addyſc a gei di yn y geiriau hynn *Y Map rhad* oi chwilio ai gorofyn: Map rhad i gelwir Chriſt Jeſu am i vod ef trwy'r pridwerth a wnaeth ef troſom ni ar pren Croes, yn purcaſu i ni trugaredd y Tad or nef i faddau i ni eyn pechodae yn rhad heb i ni rygllyddu dim, heb na thal na gwerth ond yn rhad. Nid am eyn gweithredoedd ni i cyfiownir ni gar bron Duw, eythyr *Epheſ. 2.* yn rhad trwy trugaredd Duw a purcaſodd y map rhad i ni. Ffydd a dycia i hi gan hynny gar bron Duw: can ys ffydd a gymer afael, ac a dderbyn attei, y trugaredd a purcaſodd y Map rhad i ni. Am hynn i dowait Pawl Aboſtol, *Barnu i ddym i cyfiownir dynn trwy ffydd heb vweithredoedd y gyfraith.* *Rh. 3.* Nid oes dyn ac ni bu irioed a ddichin ymddiriait yw weithredoedd y hun. Can ys llygredic yw natur dyn ac amperffaith yw i weithredoedd ie mal i dowait y prophwyt Eſai mal y cadach budyr ydyntwy gar bron *Eſai 64.* Duw.

Duw. Ac am hynny i dowait Chriſt, *Pan ddarffo ywch wneuthyr cwbl a 'orchymynnt ywch, doydwch ych bod yn waſnaethwyr amproffidiol.* Luc. 17. Ffydd a dderbyn drugaredd Duw trwy Chriſt Jeſu yn cyfiowni ni gar bron Duw, ac nid gweithredoedd. Ir hynny lle bo ffydd, e fydd gweithredoedd: can ys ffrwyth ffydd yw gweithredoedd. O blegit mal na bydd tan heb wres: velly ni bydd ffydd heb weithredoedd da. Eithr er hynny y gyt llwyr ith twyllwyti os wytti yn tybait i dichin dy weithredoedd dy gyfiowni di gar bron Duw: ymwrthot ath weithredoedd, cydnebydd ath amhuredd, ath anallu, ymddyro yn gwbl i drugared Dduw. Cyfadde yn dy golon a' chred yn gry, yn ffrwythlon, ac yn ddiammau: hyn yw cyrch a chloddiggeth yr ſcrythyr 'lan trwyddi: purcaſu o Chriſt i ti faddeuaint dy bechodau yn rhad. Ac am hynny gwir yw gair y Cymro a dynnodd ef gynt or ſcrythyr 'lan, pan alwodd ef Chriſt, *Y Mab rhad.* Nid oedd rhaid i ti arfwell yn dy law i ymladd yn erbyn Pelagius, ar gaulith ar hereſi a oſodes ef allan ynghylch puredd natur dyn oi enedigaeth, a' gallu dyn i ymgyfiowni gar bron Duw,

trwy

trwy gyflewni 'r gyfraith ai weithredoedd i hun: neu yn erbyn Athraweth llygredic Eglwys Rufain, a'r yſcol awdurion, yn dyſcu i ddyn ymgodi or pechawt a wnaeth ef wedi bedydd, trwy benyt, ſef dolur calon, cyffes genau, a' thaledigaeth gweithred, (nid wyfi yn gwrthot yr vn or tri hyn yn i iawn ddyall, ond yn i ddyall hwyntwy) i wrthladd yr hain oll nid rhaid arf well nor ddyſc a gynhwyſir yn y byr eiriau hynn, *Y Mab rhad*, ac yn yr ſcrythyr 'lan lle i cafas y geiriau hyn i dechreuad ai tadogaeth. Mae cenyf lawer heb law hynn o ddiharebion ac ymadroddion arferedig ymyſc y Cymru, ſy ae dechreuad, ae hanes o 'air Duw. Ac am hynny yn dyſtionwod yr ſcrythyr lan, a' gair Duw yn gyffredinol gynt gidar Cymru mal i mae 'r hain. *Ni * lafur ni weddia, nid teiwng yddo y fara. Eglwys pawb yn i galon. Cyn * wiried ar Evangel. * Pan nad rryvedd na thyf poſt aur trwy nen ty yr enwir? Drwg i ceidw diawl y was. I Dduw i diolchwn gael bwyt a gallu i fwytta. Onid pechot gan Ddyw y mi, &c.* Rhad Duw ar y gwaith, ac eraill or fath hynn. Brys ſy arnafi i fynd ir penn rrac ſevrdanu 'r darlleydd, ac am hyny nid wyf yn tynnu

*Gen.3.19. *Tobi.* 2.13. 2. *Theſſa.* 3.10. * *Ioan.* 21.24. * *Pſal.* 10.5.

nu o hyd, ac yn egori yr hain megis i gwneuthym am y rhai vchot. Llyfr braiſc a ellit i wneuthyr o honyn, a' roe wybodaeth a' goleuni, am hen ffydd y Britaniait, ac am pob pwnc ac y ſy heddiw mewn ymryſon rhwng y Rhufenyddion ar Evangelyddion. Hefyt, nyd cwbl anghyſſon vyddei gymeryd yma deſtolaeth or Enwe arveredic cynt ar y Cymbru, megis Abraham, Eſcop Menew: Adda Vras, vn or Beirdd: Aaron, vn o bennaethe gwlad Vorgan: Aſaph, Eſcop llan Elwy, 590. Daniel, yr Eſcop cyntaf ym Bangor, 550. Dauid neu Ddewi, yr Eſcop cyntaf ym Menew. 640. Iaco ap Idwal: Joſeph Eſcop Menew: Matuſaleh: Samuel Beulan, offeirat dyſcedic, 640. Samſon, y chwechet Archeſcop ar higen ar dywethaf ym-Menew, 560. Sele: Suſanna, a'r cyfryw eraill, yr rain y geffir yn vynech yn llyfru Achey a' Chronic, hen Recordeu, Regiſtreu, a' Siartereu. A' mi vedwn ddangos ychwi mewn carp o Siarter hen ddyhenydd, y ſydd yn perthyn im Eſcopawt i yma Venew, vot vn ai enw Noe, yn Vrenhin Dyvet. Ac na bei ond wrth hynn y mae yn ddigon credadwy gan pwy pynac a wyr yr arver heddyw ar enwy

Noe Brenh. Dyvet neu ſwydd Penvro.

enwy plant yn yr Eglwyſi cywair-grefydd, vot yr Scrythur 'lan yn wybodedic iawn gan eyn Henafieit ni gynt. O blegit yr vn modd oedd ey defot hwy yn y hamſer a'r enwy eu plant ar henweu a ddarlleynt yn yr yſcrythur 'lan, ac y mae 'r bobloedd yn awr lle mae'r Scrythur 'lan wedy ei thynnu yn y hiaith y hunain. May cenyſi hefyd ddarn o waith Talieſſin ben beirdd, a ddychin goffay iti beth or hen fyd a fu gynt : ac efe oedd yn amſer Arthur, ac yn amſer Maylgwyn Gwynedd wedi Arthur rhwn ydoedd frenin Bryttayn pan ydoedd oed Chriſt 500. val hyn i dowait ef.

*Gwaer effeiriait byt, nis * angreifftia gwyt, ac ni phregetha. Gwae ni cheidw eu * gail, ac ef yn figail, ac nis areilia. Gwae ni cheiddw i ddefait, rhac bleiddie Rhufeiniait, ai ffon glwpa.* Ir nad wyfi yn amcanu doſparth y penillion hynn ae cyffiybu hwynt at 'air Duw yn fanylaidd mal i gellit yn hawdd, etto mi a nota i ti ddeubeth ynthynt wy. Vn peth yw hyn: ymarn Talieſſin, ſwydd yr effeiriat yw ceryddu pechot a phregethu. Yn ſicir velly i dowait yr ſcrythyr 'lan hefyd. Darllain y lviii pen o Eſai yr Prophwyt, a darllain yr xvi. pen o Evan-

* argyedda, ceryddda, veia * gorlan

gel Marc lle i dowait Chriſt wrth i ddyſ-
cyblon, a' thrwyddynt wy wrth effei-
riait y byd. *Ewch ir oll fyd a' phregethwch*
*yr Evangel i pob creadur*, ac velly rhagoch.
Ni dowot Chriſt wrthynt, Ewch ac
aberthwch tros y byw ar mairw. Chriſt
i hun a aberthodd i gorph ar pren croes
Ebr. 10. tros pechodau 'r byt, a' thrwy vn vnic
offrwm ac aberth i perffeithiodd ef yn
dragwyddol yr hai a ſanteiddier: ny
ellir i aberthu ef drachefn: o bleit yno
i byddae raid iddo ef farw drachefn. Ac
am hynny mae effeiriait Ruuainol yn
eſpelio Chriſt am i foliant ae 'ogoniant,
pan gymront wy arnynt aberthu tros y
byw ar mairw. Yr yſcrythyr 'lan ſyn
gwahardd yddynt wy hyn, ac yn gor-
chymyn yddynt wy pregethu. Hwynt
wythe a wnant yr hyn a waharddwyt
yddynt, ac nid ymyrant ar hyn a orch-
mynwyt yddynt. Yr ail peth a nottafi i
ti yn y pennillay vchot yw hyn, nad
yrowran gynta i bu gwyn yn erbyn tra-
ha, a' balchder Ruuain. Can ys mae
Taliesin yn doydet yn i amſer ef, *Gwae*
*ni cheidw i ddefait rhac bleiddiau Ruueniait.*
Ond mi, mi wn er hyn y gyd o dravel
beth y ddywet rrai rryngthyn ac y hu-
nain, a' pha beth ond dywedyt mae
newydd

newydd yw pop peth a draethir heddyw ynghylch y ffydd neu'r crefydd, ac nad oedd dim ymyd or cyfryw. ſon y to aeth heibio. Wele ynteu gwrandawet y rreini pa beth y ddywait vn or hen Veirdd Cymbru (os hen bot ynghylch mil o vlynyddeu) nyd amgen Merddin Wyllt yn atep ei cbwaer Gwenddydd, yr hon a ſyganei wrtho ef hyn,

*Gorchymynnaf vy * eirioes vrawt ir * Ken* * tec
* Tad
* Arglwydd

** Kwy goreu: cymer Gymmun cyn angheu.*

Atep *Merddin*,

*Ny chymeraf gymmun gan eſcymmun veneich, ac ei * twygeu ar eu cluſ:* * hugeu

*am cymmuno Duw ehun.*

Ar vn Bardd mewn mytr arall, lle mae ef (megis ac y perthyn y wr dyſcedic mal yr oedd ef yn argyweddu y beieu oedd yn benaf yn ei amſer, y ſef yn y gairieu hyn.

A vallen beren bren addveinus.

Gwaſcatvot glotvawr buddvawr brydus

Yd wnant wyr ramant ryt rwyuanus

*celwyddoc byteic beius*

A'meneich geuawc,bwydiawc,gwydus

A'gweſion in ffraeth byt arvaethus, &c.

Velly ynteu nyd gwyr dyſcedic yr oes

hon a ddechreuodd dywedyt yn erbyn anllywodreth y meneich. Paham gan hynny y buant mor hwyr heb eu coſpi? *Quia nondum completæ ſunt iniquitates eorum*, Am nad oedd y henwiredd hwy eto wedy eu gyflawni neu yn aeddfed, ac (val y mae'r ddiereb) am may hwyraf dial, dial Duw. Paham y divawyt hwy mor llwyr or dywedd? Am gyflewni y henwiredd hwy, ac am may llwyraf dial, dial Duw. Ond am Eſcop Ruuain (yr hwn y elwir hefyt Pap, val y gelwit gynt) * Eſcopion Eſcopaetheu eraill) nyd oes (mi wn yn dda) nymawr yn credu vot cam ymwreddiat yn y byt arno, ac na wnaet onyd pigo querel arno yn ddiachos ac yn hwyr o amſer: yr hwn pe ſcrivenwn ganved ran yr iawn achoſion y ſydd yn y erbyn ef, vo dyvei yn vwy ei ſwm na'r ddarn arall ir llyfr hwn. Ac am hyn rrait y mi yma ymattal yn 'lew rrac mynet ymplith datcuddio y guddfa hono ar hyn o amſer. Ac adolwyn ywch ond digon o achos y lefen yn y erbyn oedd na bei ond hyn a graffodd y Prydydd, nac ef y Bardd neu yn hytrach y Prophwyt Cymro, yr vn a ganoedd y penill hwn.

* Ciprian. Epiſt. 89.

Y Pab, val am yr aberth,

A mmeu'r

A mmeu'r gwir y mae er gwerth. Vban, modd vn, nyd oedd hynn yn hanvot o Yſpryt iawn ganthaw. Nyd oedd? Onyd oedd y penillion y wnaethoedd ef yn neſaf ym blaen hwn yn hanvot o Yſpryt iawn, nyd amgen yrrein.

E wnaethpwyt y pennill hwn cyn bot yngan yn Lloecr yn erbyn y Pap.

Tydy'r gwan, taw di a'r gwir :
Arian da a wrandewir.
Ny chair y dwr uch Caer dyf
Eiſieu arian y Sieryf.
Nobl ( o bai yn abl o bwys )
A wna'r cam yn wir cymwys.
Nyd cyfled gweled y gwir
Ar yr wyneb ar anwir.

Ond da a' dwywol oedd yr hwn a gynghaneddodd y dywediadeu hyn? Ac y mae yn eſpes genyf mae'r vn gwr ( cyd nad yw mor eſpes genyf ei goſodiat ) wnaeth y pennillion hyn ar llall. Ef all vot yn eſpeſ hefyt gan bawp aei darllenno, may'r vn yſpryt a ddatcuddiodd yddo vai 'r Pap a'r beieu eraill. Ac nyd egwan nac annerthawl ( Dyw eu gwyr ) oedd y yſpryt ef pan beiddiai ef y pryd hyny geryddu pen Sieryf gwlat, ac yn ben ddivaddeu y Pap yr hwn y alwe deilliait eraill yr oes hono ( val y mae vyth y ſywaeth ) yn Dduw daiarol. Ac

Diareb popl ei wlad am y pap, yw, y vot ym vwy no dyn, ac nyd cyſtal a Dyw a gwaeth no diavol.

na

na bo y nep vwrw yn vwy yſcafnder arna vi ymarddel o benillion Bairdd vyngwlad nag ar S. Paul yn eu bregeth yn dinas Athen, ſef ymperfedd y gwyr dyſcedic pennaf yn yr oll vyt, yr hwn y bdywedei yn yr ymadrodd hynn - *ſicut & quidam veſtratium Poetarum dixit*, Megis ac y dywedent rrei och Beirdd chwi ychunain. Ie a' chredu 'r wyf nad mawr anghymeſurach y mi adrodd pennill y prydydd hwn a'i alw ef yn prophwyt nac y S. Paul 'alw y Groecvardd *Epimenides* yn prophwyt, ac adrodd gwers ney odl oi waith mewn mytri val hyn.

Κρητὶς ἀεὶ ψεῦσται, κακὰ θηρία, γαστέρες ἀργαί.

Titus. i.

Yr hon wers, er nad ydyw onyd ſaith 'air, odid vydd ei gwneuthur yn llai no phenill yn Cymraec, Eithyr y pwyll 'air yn ei gylydd allan o vydr ſydd val hyn.

Y Cretaniet byth celwddoc, yſcrublieit drwc, bolie muſcrell. Nid afi ymhellach ar hyn o amſer i ſon am y gwrantrwydd y geffir gan ymadroddion Cymru, yrrei ſy gyſſon a'r ſcrythyr 'lan. Prawf dilys ydyntwy ir neb ai yſtyrio a chalon ddianhydyn, fod hen ffydd y Brytaniait ai gwreiddin yngair Duw; ai hanes o ganol yr Scrythyr 'lan. Hon oedd mor gyffredinol yn y myſc hwynt, ac i tyfai ddiharebion, ac yma-

ymadroddion trefnus, dyſcedic, a gynhwyſai ynthynt ergit yr oll ſcrythyr 'lan ac athrawaeth iachus am lawer pwnc o crefydd Chriſt. Madws bellach yw tynnu tuar terfyn, a' dibennu. Galw ith cof dy hen fraint ath anrhydedd mawr herwydd ffydd Chriſt a' gair Duw a erbyniaiſt o flaen ynyſoedd y byt. Crefydd Chriſt ath harddai am yt i gael yn gowir ac yn bur mal i dyſcawdd Chriſt yw Aboſtolion ae ddyſcyblon: ac yt i gadw yn berffaith ac yn ddilwgr, a' phris gwaed dy ferthyron gwynfydedic. Ni ddigwyddodd hyny ir Sayſon gynt (yr hei ſydd heddiw ar yr iawn gwedy yddynt trwy 'ras dderbyn yr Efangel yn groyſawus) hwyr ir erbyniaſont wy ffydd Chriſt, ac amhur a' llygredic i cowſant, y tro cyntaf i cowſant. Meddylia faint y cwymp a gefaiſt o gytuno ar amhuredd a ddug Awſtin vanach ir Sayſon: ac mal i cydfoddaiſt gidac wynt mewn towyllwg a' gauddywieth o amſer bigilid: Duw o ro yt ras i ddilit ey vrddas ae anrhydedd hwynt heddiw, trwy ymchwelyt ir iawn mal i gwnaythont wy euſus. Hefyt cyt byddai i bop naſiwn béth goleuni, herwydd trigo ey llyfray gidacwynt etto tydy a ddinoythwyt ac a eſpeliwyt yn llwyr.

Atcof talgrwn am yr ymadroddion or blaen.

Cwympa

Cwympa ditheu, ar dy liniay am hynny a diolch i Dduw ſy heddiw yn ymwelet a thi yn drugaroc, ac yn dechre dy godi ith hen fraint ath vrddas pennaf gynt, trwy dy wneuthyr yn gyfrannog oi 'air bendigedic ef, a' danfon yt' y Teſtment cyſegredic, rhwn a ddengys dy ddiarebion ath ymadroddion vchot i vot yn hen gynefin yt gynt. Am hynny dos rhagot a' darllain. Llyfr yw hwn y bowyt tragwyddol, 'rhwn a dreiglwyt yt yn Gymraeg yn ffyddlon, ac yn gowir, trwy 'ofal a diwdrwydd. Etto o digwydda yt gyfwrdd ac ymbell fai allay ddiainc, naill ai ar orgraph, ai camoſodiat gair, neu lythyren, neu yn ymryſus gadael gair, neu ſillaf allan neu'r cyfryw: madday hynny: hwn yw'r Teſtment cyntaf a ſu ſrioet yn Gymraeg, yna 'r printwyr eb ddyall vngair erioed or iaith, ac am hynny yn anhawdd yddynt ddeall y Copi yn iawn. Rhoddet Duw yt wollys da: can ys yma i cei ymborth yr enait, a' chanwyll i ddangos y llwybyr ath ddwg i wlat teyrnas nef. Yr hon a geniatto Duw iti ac iminay, trwy eyn Arglwydd Jeſu Griſt, ir hwn ynghyd ar Tad a'r Yſpryt glan i bo mawl a' gogoniant yn oes oeſoedd, Amen.

TERFYN.

*A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th V W Y Z.*

*a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y z.*

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y Z.

a b c ch d dd e f ff g ng h i l m n o p ph r ſ s t th u w y z.

Bogeiliaid A e i o u w y.

*Y Sylafiau.*

Ab eb ib ob ub wb yb.
Ac ec ic oc uc wc yc.
Ach ech ich och uch wch ych.
Ad ed id od ud wd yd.
Add edd idd odd udd wdd ydd.
Af ef if of uf wf yf.
Aff eff iff off uff wff yff.
Ag eg ig og ug wg yg.
Ang eng ing ong ung wng yng.
Ah eh ih oh uh wh yh.
Al el il ol ul wl yl.
All ell ill oll ull wll yll.
Ba be bi bo bu bw by.
Ca ce ci co cu cw cy.
Da de di do du dw dy.
Fa fe fi fo fu fw fy.

Ga ge gi go gu gw gy.
Ha he hi ho hu hw hy.
La le li lo lu lw ly.
Ma me mi mo mu mw my.

1. 2. 3. 4. 5. 6. 7. 8. 9. 10. 11. 12. 13.
14. 15. 16. 17. 18. 19. 20. 21. 22. 23.
24, 25: 26. 27. 28. 29. 30. 31. 32. 33.
34. 35. 36. 37. 38. 39. 40. 41. 42. 43.
44. 45. 46. 47. 48. 49. 50. 51. 52. 53.
54. 55. 56. 57. 58. 59. 60. 61. 62. 63.
64. 65. 66. 67. 68. 69. 70. 71. 72. 73.
74. 75. 76. 77. 78. 79. 80. 81. 90. 91.
100. 101. 102. 110. 111. 112. 120.
121. 122. 130. 131. 140. 141. &c.